# CLONC


www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071

Rhifyn 305 - 60c
Gorffennaf 2012


Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Ysgol Y Dderi ar dramp**



Tudalen 12

**Enfys yn aelod gweithgar**



Tudalen 23

**Ennill Cap i Gymru**



Tudalen 25

## Coroni Brenhines



Mrs Elonwy Davies, Llywydd y dydd yn coroni Gwennan Davies ar ddiwrnod y Rali.

## Llwyddiant yn Eryri



Charlotte a Joseph Saunders, Ysgol Ffynnonbedr yn cipio'r wobr gyntaf am ganu deuawd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.




Plant Ysgol Cwrtnewydd yn eu cân actol 'Bod yn Wyrdd' a fu yn cynrychioli Ceredigion yng nghystadleuaeth Cân Actol i ysgolion gyda llai na chant o blant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Glynllifon. Daethant yn fuddugol.

# Priodas dda i chi gyd…



Llew a Catrin Thomas, Castell Du, Llanwnnen ar ddiwrnod eu priodas yn Eglwys St Lucia, Llanwnnen ar ddydd Sadwrn, Mai 12fed.



Priodwyd Laura merch Malcolm ac Anne Davies, Glan yr Afon, Pentrebach a Dafydd mab Dai a Deborah Jones, Llanfair Fach, Llanfair Clydogau yn Eglwys Sant Pedr, Llanbedr Pont Steffan ar 16eg o Fehefin.



Priododd Helen Phillips,Maesygarn a Ceri Jones, Gelliorlas,Abercych ar  Sadwrn yr 28ain o Ebrill, yng Nghapel Brynhafod, Gorsgoch.



Delyth Gwenllian, unig ferch Sammy a Christina Morgans, Blaenfallen, Talsarn a Rob mab Albert a Christine Phillips, Pencoed, wedi eu priodas yng Nghapel Bwlchllan ar Sadwrn Mai 26ain.



Llongyfarchiadau i Carys Jones o Lanybydder a Chris Jones o Gaerfyrddin ar eu priodas yn Eglwys St Luc Llanllwni ar Fehefin 9fed.  Pob lwc i'r ddau.


Gorsaf Brawf MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX

* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
* Teiars am brisiau cystadleuol
*Ceir newydd ac ail law ar werth
* Batris * Brecs * Egsost
*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305
07974 422 305

LAS Recycling Ltd



Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni ar 01570 421421

Ffordd Tregaron, Llambed, Ceredigion, SA48 8LT

# Pwy yw pwy?

**Golygydd:**

| | | |
|---|---|---|
| Gorffennaf a Medi | Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach | 481855 |
| e-bost: | golygydd@clonc.co.uk | |
| Tîm Golygyddol: | Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd, Marian Morgan a Delyth Phillips | |
| Dylunydd y mis: | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Swyddog Dosbarthu | Eifion Davies, Afallon, Drefach | 480590 |
| e-bost: | bedwyr@btopenworld.com | |
| Teipyddion | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| | Joy Lake, Llambed | |

**Gohebwyr Lleol:**

| | | |
|---|---|---|
| Cellan | Alwen Edwards, Awel Teifi | 421001 |
| Cwmann | Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen | 422922 |
| Cwmsychbant | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Llanwenog/Drefach | Mary Davies neu Eifion Davies | |
| Ffaldybrenin/Ffarmers | Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers | 01558 650507 |
| Gorsgoch | Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod | 434238 |
| Llambed | Janet Evans, Haulfryn | 422856 |
| Llanfair | Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn | 493407 |
| Llangybi a Betws | Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon | 493325 |
| Llanllwni | Dewi Davies, Glanafon | 480218 |
| Llanwnnen | Elin Thomas, 1 Teras Sycamor | 480239 |
| Llanybydder | Menna Jones, Ceginau Lifestyle | 480257 |
| Pencarreg | Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf | 422270 |

# Beth yw beth?

**Bwrdd Busnes:**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann | 422349 |
| e-bost: | cadeirydd@clonc.co.uk | |
| Is-Gadeirydd | Marian Morgan, Glasfan, Drefach | 480490 |
| Ysgrifenyddes | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Trysorydd | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| e-bost: | ysgrifennydd@clonc.co.uk | |
| Ceidwad y Camera | Janet Evans, Haulfryn, Llambed | 422856 |
| Ffotograffydd | Tim Jones, Llainwen, Llambed | 422644 |
| Argraffwyr | Gwasg Aeron, Aberaeron | 01545 570573 |

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.

• Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
• Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
• E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
• Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
• Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
• Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
• Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: **www.facebook.com/clonc**
• Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
• Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
• Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

**Tywydd**

Dyma'n wir destun siarad pawb y ffordd yma. Pob un yn achwyn am y tywydd ac yn methu a threfnu dim ymlaen llaw. Gan fod ddoe wedi bod yn ddiwrnod digon da, rhyfedd oedd mynd i gysgu neithiwr a sŵn peiriannau'n ceisio dwyn ychydig gynhaeaf i'r ysguboriau. O leiaf heddiw mae'r amser rhwng torri gwair a'i roi mewn byrnau yn fyr iawn. Mor wahanol oedd hi flynyddoedd yn ôl fel y dywed y darn yma o farddoniaeth–

"Yn Awst wlyb, gwair mewn ystod,
Medi heb fedi i fod."

Gobeithiwn y gorau.

**Gêmau Olympaidd**

Erbyn ein rhifyn nesaf fe fydd y cyfan drosodd. Dim ond talu'r costau fydd eisiau. Mae'r 'dim ond' yn dweud llawer. A oedd angen yr holl wario parthed mynd â'r fflam o amgylch y wlad. Beth oedd y pwrpas? Ceisio ein cael i deimlo'n rhan o'r dathliadau. Am sawl blwyddyn y byddwn yn talu am hyn? Sôn y bore yma na fydd gennym arian i dalu am ganolfannau chwaraeon a llyfrgelloedd yn y dyfodol. Ydy trefnwyr y 'Jambori' yma wedi clywed am y dywediad "Yng ngenau'r sach mae dechrau cynilo?" Dymuniadau gorau serch hynny i bawb sy'n cystadlu a'm gobaith yw y byddwn yn fwy ffodus nac y bu gwlad Groeg yn setlo biliau wedi cynnal y gêmau yno.

**Arwyddion**

Apêl sydd gennyf i'r rhai sy'n rhoi arwyddion i hysbysebu digwyddiadau yn eu hardaloedd. Er mwyn popeth gwnewch nhw'n ddarllenadwy. Dyw darn troedfedd sgwâr ddim ond yn dda i ryw ddau air efallai. Gwnewch nhw'n ddigon clir ac ar gefndir gwyn fel y gall modurwr sy'n gyrru'n weddol gall eu darllen. Prin iawn yw'r cerddwyr sy'n mynd heibio ar ein heolydd heddiw. O ie,- cofiwch dynnu'ch arwyddion i lawr wedi'r digwyddiad fynd heibio.

**Cymrwch ofal!**

Ydych chi'n edrych ar eich biliau cyn mynd allan o'r arch farchnad? Gwnewch. Cawsom ein dal ddwywaith yn ddiweddar. Darn o gig am hanner pris ar y silff ond y pris llawn yn y til. Gwelsom y camgymeriad mewn pryd. Tro arall arwydd yn dweud ond i chwi dalu am un pecyn, roedd y llall am ddim. Wedi mynd i dalu deall fod pecynnau o wahanol bwysau ar yr un silff. Roedd yr un oedd yn fargen wedi gwerthu allan. Y neges – byddwch yn ofalus.

**Y Sipswn**

Wedi gwylio'r rhaglen gyda diddordeb. Y côf sydd gennyf i yw am ddwy sipsi adeg y rhyfel wedi cael llythyr caru; mynd â'r llythyr at Saesnes oedd yn byw ger y comin i'w ddarllen iddynt. Gan nad oedd llawer o garu yn y llythyr, y ddarllenwraig yn ymestyn y cynnwys a'i wneud yn llawer mwy cariadus. Y ddwy chwaer yn dod â'r llythyr at mam, hithau'n darllen y llythyr yn union fel yr ysgrifennwyd e. Druan â'r ddwy chwaer – dyna beth oedd siom!!

Pob hwyl, *Cloncyn.*

# Gohebiaeth Clonc

## Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion – 12fed Hydref

Yn dilyn llwyddiant cystadleuwyr Papur Bro Clonc yn Eisteddfod Papurau Bro Ceredigion y llynedd, swyddogion Clonc fydd yn trefnu'r eisteddfod eleni. Apelir am gymorth felly gyda threfniadau'r noson.

Cynhelir yr eisteddfod eleni yn Neuadd Felinfach eto a hynny ar nos Wener 12fed Hydref. Gyda'r neuadd wedi ei hadnewyddu'n gysurus yn y blynyddoedd diwethaf a'i lleoliad yng nghanol y sir, penderfynwyd yng nghyfarfod diwethaf Fforwm Papurau Bro Ceredigion mai yn Felinfach oedd y lle delfrydol.

Felly rhowch y dyddiad yn eich dyddiadur, gan y byddwn angen stiwardiaid a chynorthwywyr wrth y te a'r coffi. Roedd yn noson wych y llynedd dan ofal swyddogion Menter Iaith Cered, a chyfrifoldeb Clonc fydd cynnal a threfnu'r noson eleni. Cyhoeddir y cystadlaethau, y beirniad, y cyflwynydd a manylion eraill y noson yn rhifyn Clonc Medi. Gofynnwn yn garedig am eich cymorth os gwelwch yn dda yn nes at yr amser.

## Cadw Capeli Ceredigion ar Gof a Chadw

Mae casgliad o ffotograffau o dros gant o gapeli Cymru wedi'u casglu ynghyd mewn llyfr dwyieithog newydd gan Tim Rushton. O'r syml i'r addurnedig, ymgais gan yr awdur i greu cofnod o'r adeiladau hynod hyn sy'n prysur ddiflannu a dadfeilio yw cyhoeddi Capeli / Chapels. Mae Tim Rushton wedi bod yn prysur deithio ar hyd a lled Cymru ers degawd a mwy, a hynny er mwyn ceisio rhoi sylw arbennig i bensaernïaeth amrywiol capeli'r wlad.

Mae **Capel-y-Cwm, Cwmsychbant** ymysg y capeli rheiny sy'n ymddangos yn y gyfrol.

"Dechreuais dynnu lluniau o gapeli yn gynnar yn nawdegau'r ganrif ddiwethaf ac mae amryw o destunau fy lluniau cynnar wedi'u dymchwel ers hynny neu wedi'u haddasu at ddefnydd arall," meddai'r ffotograffydd a'r dylunydd. "Er bod llu o enghreifftiau o gapeli i'w cael yn y rhannau o Loegr lle bu anghydffurfiaeth grefyddol yn ffynnu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, peth Cymreig yn ei hanfod yw'r 'capel' hyd heddiw."

Mae'r gyfrol ddwyieithog yn cynnwys rhagair gan y newyddiadurwr a'r cyflwynydd, Huw Edwards, "Yn y casgliad gwych hwn mae Tim Rushton yn mawrygu'r llu ffurfiau ar adeilad y capel," meddai Huw Edwards. "Dyma lyfr sy'n darlunio rhan fyw o hanes Cymru.

Gellir prynu Capeli / Chapels am £14.95 o'ch siop lyfrau leol, gwefan Y Lolfa neu Gwales.

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Cydnabyddir cefnogaeth
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

**GORFFENNAF**

6 Noson Beicio Noddedig yn Ysgol Gynradd Cwrtnewydd am 6.00y.h. gyda Ysgol Feithrin Drefach.
10 Barbeciw Plaid Cymru Cangen Llambed am 7.00y.h. yn Llety Clyd, Stryd Newydd. Rhagor o fanylion: 01570 422992.
14 Mabolgampau Pentref Cwrtnewydd ar gaeau Ysgol Cwrtnewydd.
14 Te mefus a stondinau ar lawnt y ficerdy Cwmann yn Eglwys Sant Iago Cwmann am 2 o'r gloch. (os yn wlyb yn Neuadd Sant Iago Cwmann).
15 Ysgol Sul Noddfa yn trefnu Oedfa, Picnic a Gêmau am 3.30 yn Ysgol Ffynnonbedr.
21 Garddwest yn Frongelli, Alltyblaca 3 yp tuag at Sefydliad y Galon.
27 Noson Goffi yn cael ei chynnal yn Neuadd Gymunedol Llanllwni. Croeso cynnes i bawb.

**AWST**

5 Taith Feicio Noddedig Siambr Fasnach Llanbedr Pont Steffan am 10.30 y bore o'r Clwb Rygbi. £5 i blant o gwmpas Llanfair Clydogau; £10 i oedolion o gwmpas Llanddewi Brefi a'r oedolion profiadol o gwmpas Tregaron. Lluniaeth i ddilyn yn y Clwb Rygbi a'r elw tuag at Oleuadau Nadolig y Dref.
11 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
11 Carnifal a Mabolgampau blynyddol Ffarmers.
18 Sioe Gorsgoch ac C.Ff.I. Llanwenog.
25 – 28 Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen yn Ysgol Gyfun Llambed.
26 Barbiciw yn Nhafarn Fishers, Cellan am 2.00y.p. Elw tuag at Glefyd y Siwgr. Dewch yn llu.
27 Sioe a Treialon Cŵn Defaid C.Ff.I. Llanllwni ar gaeau Abercwm, Llanllwni.

**MEDI**

2 Cyngerdd Parti'r Camddwr, Lledrod yng Nghapel Maesffynnon, Llangybi am 7:30y.h.
5 Trip blynyddol Pwyllgor Lles Llanwnnen i Sain Ffagan.[ Os bydd y tywydd yn anffafriol byddwn yn mynd i Mc Arthur Glen]. Bydd y bws yn gadael Llambed am 8:15y.b. a Llanwnnen am 8:30y.b. Enwau i Haydn Richards 480279, Gwen Davies, 481152 neu Ann Hughes 422654. Croeso cynnes i bawb.
7-9 Penwythnos Preswyl Merched y Wawr yn Llambed.
29 Sioe Ffasiynnau i godi arian i 'Motor Neurone' yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant, Llambed am 2.00y.p gyda *duet a lan lloft*. Tocynnau yn £12 drwy ffonio 422508.

**HYDREF**

12 Eisteddfod Ddwl gyda Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Goffa Felinfach.
27 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint. Manylion pellach 01558 650292.

**TACHWEDD**

1 a 3 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion yn Bont.
17 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Sir Benfro.
24 Arwerthiant Blynyddol Seion Cwrtnewydd.

# Llanybydder



Carnifal Llanybydder - Naomi Carroll, Ellie Thomas, Ffion Lloyd, Nia Davies a Brooklyn Jones

# O'r Cynulliad

gan Elin Jones

Mae'r llifogydd mawr a'r difrod a welwyd mewn cymunedau yng ngogledd Ceredigion yn golygu na fydd nifer ohonom byth yn anghofio mis Mehefin 2012. Ers y trychineb, rwyf wedi ymweld â nifer o'r ardaloedd gafodd eu heffeithio i weld y sefyllfa dros fy hun. Mae'n amlwg y bydd nifer o bobl allan o'u cartrefi am gyfnodau sylweddol, ac rwyf wedi galw ar y cwmnïoedd yswiriant i ddarparu cymorth a phrosesu taliadau cyn gynted â phosib.

Wrth ymweld â'r cartrefi a'r busnesau a effeithiwyd gan y llifogydd, roeddwn hefyd yn falch i weld y cymunedau lleol yn dod at ei gilydd, gyda phobl yn rhoi cymorth i'w cymdogion. Rwyf hefyd wedi talu teyrnged i'r gwasanaethau brys ac achub am ymateb mor effeithiol i'r sefyllfa wrth iddi ddatblygu.

Fodd bynnag, rhaid i ni edrych i'r dyfodol, ac rwy'n awyddus i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i osgoi sefyllfaoedd o'r fath yn y dyfodol. Rwyf felly wedi galw ar Asiantaeth yr Amgylchedd i fonitro ein hafonydd i wneud yn siŵr nad oes coed neu silt yn cronni ynddynt ac yn rhwystro'r llif ar adegau pan fydd llawer o ddŵr ynddynt.

Gwnes hefyd fynychu nifer o ddigwyddiadau ar hyd a lled y sir yn ystod y mis. Roeddwn yn falch i dderbyn gwahoddiad i fynychu'r seremoni i urddo Maer newydd tref Llambed, ac rwy'n dymuno'n dda i'r Cyng Kistiah Ramaya wrth iddo gychwyn ar ei dymor.

Fe ymwelais â rali flynyddol y Ffermwyr Ieuainc, a gynhaliwyd eleni ar fferm Llechwedd, Llanwenog. Eleni eto, roedd yna gystadlu o'r safon uchaf, a hoffwn longyfarch CFfI Tal-y-bont am ddod i'r brig eleni.

Yn olaf, cefais gyfle i ymweld â'r Ganolfan Ddydd newydd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Roedd llawer o wrthwynebiad yn y dref i'r bwriad o adleoli'r gwasanaeth o'r hen adeilad ar Goedlan y Parc i fod gyda'r llyfrgell a'r archif yn Neuadd y Dref. Cyflwynwyd deiseb yn erbyn yr adleoli i Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad Cenedlaethol, ac fe gefais fy ngwahodd i ymuno ag aelodau'r pwyllgor hwnnw wrth iddynt ymweld â'r Ganolfan yn ei lleoliad newydd a chanfod barn y defnyddwyr. Bydd aelodau'r Pwyllgor Deisebau yn awr yn ystyried eu hymateb i'r adleoli yn sgil yr ymweliad.




**Alec Page Gof**

Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.
*Dewch i drafod eich syniadau.*
Yr Efail, Barley Mow, Llambed.
**01570 423955**

**COMPASS OFFICE SUPPLIES**
Am eich holl ddeunydd swyddfa
Uned 12 Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.
☎ 01570 422955
🖷 01570 422232

**T. Emyr Jones Adeiladwr**



Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
07867 945174

**CANOLFAN ADDURNO AA A**
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.
Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.
*Arbenigedd ar garreg eich drws.*
**3 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan**
**01570 423156**

**Cludfwyd Indiaidd**
**NEHAR**



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
**15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.**
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.
**10 Stryd y Bont, Llambed**
**☎ 01570 422893 / 422175**

# Llanfair Clydogau

**Parti'r Jiwbili**

Ar ddydd Mawrth, Mehefin 5ed, dathlwyd y jiwbili yn ein pentref trwy gael parti yn y neuadd, gyda phawb yn cyfrannu y bwyd, a bu yn wledd digon da i'r Frenhines ei hun, gyda dros gant o bobol wedi dod ynghyd.

Cafwyd adloniant diddorol gan grŵp drama a dawnswyr Annie Spawton May, Grŵp Theatr Ieuenctid Llanbed sy'n cwrdd yn rheolaidd yn Neuadd Victoria. Diolch iddynt i gyd ac i bawb a fu yn helpu i wneud diwrnod arbennig o ddathlu.

**Gŵyl Gwrw**

Dechreuodd dathliad y chweched ŵyl gwrw flynyddol ar nos wener, Mehefin 16eg pan ddaeth grŵp da ynghyd i brofi tua chwech gwahanol math o gwrw o fragdau Cymreig. Bu parhau i'r dathlu ar y nos Sadwrn gyda barbiciw ac er gwaethaf y tywydd oer a gwlyb roedd y lle yn orlawn. Cafwyd bwyd blasus a chymdeithasu da rhwng bobol y pentref a llawer o berthnasau a ffrindiau o'r tu allan. Diolch i Grŵp Theatr Ieuenctid Llanbed am ein diddanu gyda detholiadau allan o Alice in Wonderland-bobol ifanc a thalentau arbennig, y cyfan o dan ofal Annie Spawton May. Diolch hefyd i Lesley a'r criw am drefnu y cwrw, i Linda a Lawrence am eu gwaith yn paratoi y bwyd ac i bawb am gefnogi'r noson.

**Sefydliad y Merched**

Cafwyd noson arbennig o ddiddorol ar nos Iau, Mehefin 21ain pan aeth tua deg ar hugain o aelodau a ffrindiau lan at June a Gwyn Williams i Esgairgoch. Dangoswyd pawb o amgylch y fusnes loriau a chael gweld y ceffylau, y ceffylau rasus, y coetsiau werth miloedd a'r goets fawr a'r gwisgoedd a fu ar raglen S4C beth amser yn ôl. Hefyd gwelwyd Paddy Pwdryn, Sion a Sian



- y ceffylau fydd yn arwain Shan Cothi ac Ifan Jones Evans ar daith y sipsiwn ar raglen newydd S4C. I gloi y noson mi aeth pawb nôl i gartref Sally ac Alan Leech yn Nhan yr Esgair i gael gwledd o swper wedi ei baratoi fel arfer, gan bawb. Noson wlyb iawn a stormus o ran y tywydd, ond gyda'r bwyd arbennig a chyfeillgarwch gweresog cafwyd noson i'w chofio. Diolch o galon i June a Gwyn a phleser oedd cael eu cwmni i ymuno â ni am weddill y noson a diolch i Sally ac Alan am agor eu cartref i ni i gael ein 'picnic blynyddol' y tu mewn yn absenoldeb ein haf.

**Grŵp Cerdded Llanfair**

Gydag awyr las a'r haul yn disgleirio ar brynhawn Sul y 24ain o Fehefin, daeth dros ugain ohonom ynghyd i ddechrau'r daith gerdded i eglwys Cellan. Ar y ffordd nôl galwyd yn yr Allt i weld gardd enfawr, brydferth Ron Spooner, lle mae wedi tirlunio ei ardd ar sawl lefel gyda rhaeadrau, a phwllyniau, tŷ haf, twb dŵr twym a gardd enfawr o lysiau. Yna cerdded ymlaen i Fach Ddu at Jane a Julian Branston i weld Tŷ Bach y Bugail oedd Julian wedi ei adeiladu erbyn priodas Anna y ferch. Tŷ bach sinc gyda phob fath o gyfleusterau, gwely, cegin fach a lle i goginio, cawod a thŷ bach, y cyfan yn yr ardd gudd. Yna croesi'r' caeau a'r afon fach, a lan i fferm Pentre i gael Pyms a chacennau blasus. Diolch i Eleri ac Arwyn am y bwyd a'r croeso cynnes ac i Jane, Julian a Ron am ein tywys o gwmpas eu gerddi hyfryd. Cafwyd diwrnod neilltuol gyda phawb wedi mwynhau mas draw.

**Yn y Dyfodol**

Cynhelir Ras Hwyaid a Te Hufen ar Bont Llanfair dydd Sul, Gorffennaf 8fed am 3 o'r gloch. Gallwch brynu hwyaid oddi wrth Alex Fox neu Lyn Hymphreys am £1 yr un. Gwobrau o £30, £20, £10 a £5 ar gael i'r enillwyr. Bydd yr elw i gyd yn mynd tuag at 'Olympics y Pentref' diwrnod o hwyl a sbri.

**Olympics y Pentref**

Fe fydd Llanfair a Chellan yn cystadlu mewn Olympics y Pentref ar Orffennaf 21ain. Bydd digwyddiadau y bore a chinio yw cymryd lle yn Llanfair. Yna bydd pared y plant yn mynd i Gellan lle bydd digwyddiadau y prynhawn yn cymryd lle gyda barbiciw, 'pizzas', seremoniau y medalau, cerdd byw a bar. Mae y digwyddiadau yn agored i drigolion Llanfair a Chellan. Hefyd i bobol sydd yn defnyddio y ddwy neuadd yn gyson. Mae ffurflenni cofrestri ar gael yn Siop Llanfair neu ar lein - cellanmilleniumhall.co.uk a'r manylion ar y byrddau hysbysu.

# Silian

**Codi arian i Elusen Cancr Felindre**

Y mis Medi yma mae Dai Charles, Gwarffynnon wedi ymrwymo i'r sialens o feicio 400 milltir, drwy barc cenedlaethol Yosemetie ym mynyddoedd gwyllt y Sierra Nevada . Bydd yn cysgu mewn pebyll, golchi mewn afonydd a llynnoedd ac yn gorffen ei daith yn San Francisco ar ôl 5 niwrnod o deithio: seiclo tua 7 awr y dydd. Bydd y daith yn cael eu harwain gan Jonathan Davies y cyn chwarewr rygbi rhyngwladol. Ymysg y criw bydd Shane Williams, Martin Williams, a Tom Shanklin. Bydd S4C yn eu dilyn drwy'r daith.

Yn y blynyddoedd diwethaf cafodd mwy nag un o'i ffrindiau agos driniaeth at y clefyd, felly penderfyniad hawdd oedd cefnogi'r elusen hon oherwydd y gwaith da sy'n cael ei wneud yn ddyddiol yng nghanolfan Gancr Felindre

Os oes diddordeb gennych yn noddi'r fenter, neu am fwy o wybodaeth cliciwch ar http://mydonate.bt.com/fundraisers/daicharlesevans1 i gysylltu â'r wefan gyfrannu.

Dilynwch ei ymgyrch ar twitter @daicharles neu facebook Dai Charles Evans

# Alltyblaca

**Diolch**

Dymuna Sara Humphreys-Jones ddiolch am y garden arbennig wedi ei lofnodi gan y plant ar ddiwrnod y gymanfa Bwnc. Hefyd i bwyllgor yr Ysgolion Sul am ei rhodd gwerthfawr, heb anghofio parodrwydd Lilian, Lynwen, Sian a Mary gyda'r te.

Diolch yn fawr.


**PLANHIGFA GRANNELL NURSERY**

Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE
01570 434548
www.grannell-nursery.co.uk

**Planhigion llysiau, lluosflwydd, blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiau, coed ffrwythau a mwy!**

Dydd Llun i Ddydd Sadwrn
10yb ~ 5yp
Dydd Sul 10yb ~ 4yp

Cymdeithas Alzheimer's | Arwain yr ymgyrch yn erbyn dementia

Does yr un ohonom yn gallu gwneud popeth, ond gall pawb wneud rhywbeth

**Mae angen gwirfoddolwyr arnom i helpu gyda'r gwasanaethau lleol. Gwirfoddolwyr i sefydlu grwp codi arian, ymgyfeillio, a gan fod llawer o wahanol gyfleoedd gwirfoddoli mae yna rhywbeth i bawb**

Mae 40,700 o bobl â dementia yng Nghymru ac mae'r figwr hwn yn debygol o gynyddu i 43,500 erbyn 2013

**Cysylltwch â Gill Morgan – Swyddog Gwirfoddoli ar 01269 845953 / 07715 802632 neu e-bostio : gillian.morgan@alzheimers.org.uk**

Elusen gofrestredig rhif 296645

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON
ARDAL LLANYBYDDER
LLANBEDR PONT STEFFAN

Dymuna'r Cynghorydd Ieuan Davies eich gwahodd i'r

**GARDDWEST**

Raffl, Mefus a Hufen, Te Prynhawn, Stondinau ac Ocsiwn

yn Frongelli, Alltyblaca

**Sadwrn 21 Gorffennaf 2011, 3 yp.**
**Mynediad: £3.00 neu rodd**

I'w agor gan Mrs Mair Williams, Muriau Gwyn, Pencarreg.

Elw tuag at BHF Apêl Nyrs Calon Ceredigion
Rhif Elusen 225971

**Ffair Ram**

Ar Gae Pentref Cwmann

**8fed Medi 2012**

Llywyddion: Mr a Mrs Gary Jones, Bryndolau

Sioe, Cystadlaethau CFfI, Arddangosfa Adar Ysglyfaethus, Gwartheg Ucheldir, Bar, ac atyniadau eraill.



**Arddangosfa Hen Beiriannau**

Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y bore. Beirniadu yn dechrau am 12 o'r gloch.

Ysgrifenyddion:
Danny Davies 423692, Eiddig Jones 422655

Fasech chi'n hoffi
**byw am ddim yn Llundain**
am dri mis?

Ryn ni angen help nos a bore gyda dwy ferch fach 3 ac 1 mlwydd oed. Fe fyddai'r dydd yn rhydd i gymryd swydd, gwneud internship neu i fwynhau bod yn Llundain. Ryn ni'n chwilio am berson dwyieithog, dros 20 mlwydd oed fasai'n rhydd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr.

Os oes diddordeb gyda chi anfonwch e-bost i tomos.grace@gmail.com

# Cwmann

**Ffair Ram**

Cynhelir Ffair Ram ar gae pentref Cwmann ar yr 8fed o Fedi.  Y llywyddion eleni fydd Mr a Mrs Gary Jones, Bryndolau Cwmann.  Dylid mynd â defaid a nwyddau rhwng 10 a 11.30 y bore. Cysylltwch ag Eiddig Jones 422655 neu Danny Davies 423692 am fwy o wybodaeth.  Gellir lawrlwytho'r rhaglen o wefan www.ffairram.btck.co.uk Cofiwch ddod i gefnogi ac i fwynhau'r diwrnod.

**Carnifal, Mabolgampau a Ras Hwyl Cwmann**

Ar Ddydd Llun, Mehefin y 4ydd, cynhaliwyd y Carnifal a'r mabolgampau ar gae'r pentref. Cafwyd diwrnod hwylus a byrlymus iawn wrth i bawb fwynhau cyffro'r holl ddigwyddiadau, a hynny, diolch byth yn yr heulwen.  Roedd y frenhines a'i gosgordd yn edrych yn brydferth iawn wrth iddynt ymdeithio drwy'r pentref ac ar ôl cyrraedd y cae fe dderbynion nhw rhodd fechan i'w hatgoffa o'r diwrnod, a oedd yn cael eu cyflwyno gan lywydd ein dydd sef John Rhys Jones a diolch iddo am ei araith bwrpasol a'i rodd caredig.

Braf oedd gweld Heol Hathren eleni eto wedi ymdrechu gyda'r float a hynny o dan y thema"hysbyseb teledu", ac roeddent yn llawn haeddu'r wobr gyntaf.  Gwelwyd nifer fawr o blant ac oedolion mewn gwisgoedd lliwgar yn ceisio dal llygaid y beirniaid Llion a Beca Russell, ac Owain a Bethan Jones. Roedd hi'n dipyn o gamp iddynt feirniadu chware teg gan fod y safon mor uchel.

Yn dilyn cystadlu brwd yn y mabolgampau, aethpwyd ymlaen i'r ras fawr; 1500m ar gyfer y plant cynradd gyda Llywelyn James , Sarn Helen yn ennill ras y bechgyn mewn 6 munud  27 eiliad, 2il Daniel Jones Sarn Helen 6 munud 28 eiliad ac yn 3ydd Dafydd Jones, Sarn Helen 7 munud 47 eiliad.  Yn ennill ras y merched oedd Becky Harrison, Carreg Hirfaen mewn 6 munud 56 eiliad, 2il Beca Ann Jones, Sarn Helen 7 munud 08 eiliad ac yn drydydd i'r merched oedd Lowri Fflur Davies, 8 munud 36 eiliad. Yn y ras 3000m i'r plant uwchradd daeth Gareth Jones o Lambed yn gyntaf mewn 14 munud 05 eiliad, 2il Tomos Aeron Jones , Sarn Helen 15 munud 19.08 eiliad, 3ydd Iwan Williams, Llambed 15 munud 19.19 eiliad, 4ydd ond yn gyntaf i'r merched, Sara Jones, Sarn Helen mewn 16 munud 47 eiliad.  Yn y ras 5 milltir gwelwyd 28 o redwyr, ond yn gyntaf nôl oedd Glyn Price, Sarn Helen 29 munud 02 eiliad, Michael Davies, Sarn Helen 29 munud 40 eiliad, 3ydd a 1af dynion 60 Richard Marks, 30 munud 20 eiliad, 4ydd a cyntaf dynion agored Gethin Jones, Sarn Helen 30 munud 44 eiliad, 5ed ac 2il dynion agored Simon Hall, Sarn Helen 32 munud 30 eiliad, 6ed a 3ydd dynion agored Teifion Davies, Sarn Helen 33 munud 23 eiliad, 8fed a 1af dynion 50 Tony Hall, Sarn Helen 34 munud 36 eiliad, 15fed a 3ydd dynion 40 Aneurin James, Sarn Helen 38 munud 28 eiliad.  Yn 11eg yn y ras ond yn gyntaf nôl yn ras y merched oedd Dawn Kenwright, Sarn Helen 36 munud 35 eiliad, 12fed a 1af menywod agored Dee Jolly, Sarn Helen 37 munud 06 eiliad, 14eg ac 2il menywod agored Caryl Davies, Sarn Helen 37 munud 53 eiliad, 17eg a 3ydd menywod agored Gemma Hope, 39 munud38 eiliad.  24ain a 1af menywod 35 Hayley Stephens, 45 munud 31 eiliad, 28ain ac 2il menywod 35 Jackie Rees, 53 munud 38 eiliad.  Hefyd cyflwynwyd dwy wobr ychwanegol; i'r dyn a'r ferch gyntaf i orffen y ras nad oeddent yn aelod o glwb rhedeg ac aeth y wobr i Paul Jones a Gemma Hope.    Diolch i bawb wnaeth gystadlu  a gobeithio y flwyddyn nesaf y bydd mwy o bobl eto yn rhoi cynnig ar y rasys. Mae'r canlyniadau llawn i'w gweld ar wefan Sarn Helen ac ar wefan y pentref.

Yn ystod yr holl weithgareddau egniol, roedd yna gyfle i lenwi'ch boliau gyda'r bwyd a ddarparodd y W.I, ac yna yn y barbeciw ddiwedd y prynhawn.  Diolch i bob un a gyfranodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y dydd, roedd gan pawb eu rôl i chwarae er mwyn sicrhau fod y diwrnod yn rhedeg yn esmwyth.  Diolch yn arbennig i noddwyr y dydd am eu cefnogaeth a'u haelioni sef Graham Tyres, Douglas Bros, Wilson Timber, J.H.Williams, W.D.Lewis, Gwyn Lewis Carpets, Jones Bros Butchers, Briwsion a Dŵr Llanllyr. Gellir gweld canlyniadau'r carnifal, y mabolgampau a'r rasys ar http://www.cwmann.btck.co.uk

**Gwellhad buan**

Rydym am ddymuno gwellhad buan i Ganon Winzie Richards sydd newydd ddod adref o'r ysbyty. Mae pawb yn danfon ei dymuniadau gorau i chwi.

**Clwb 125 Cwmann, Mehefin 2012**

1af, Rosa Lloyd, Cwmann. 2il, E. Evans, Parc y Rhos. 3ydd, S. Norchain, Llanybydder. 4ydd, E. Warmington, Llambed. 5ed, W. Davies, Cellan. 6ed, G. Harrison, Llambed. 7fed, C. Doughty, Cwmann. 8fed, D. Davies, Blaen Caron. 9fed, D. Davies, Cwmann.

**Cymorth Cristnogol**

Mae'r casgliad eleni eto wedi bod yn rhagorol- sef £1153.24. Diolch yn fawr i'r casglwyr â'r rhoddwyr. Da iawn bobol Cwmann!



John Rhys Jones, Llywydd Carnifal Cwmann gyda Brenhines y Carnifal Anaite Faulkner;  ei morynion, Elin Williams ac Undeg Jones;  a'r forwyn fach, Lowri Rowcliffe; a'r gweision, Jamie Griffiths a Leon Hughes.



Cymeriad Gorau yn nosbarth y Meithrin- Rhun Davies fel Ceidwad y Fflam.



Cymeriad Gorau yn y Dosbarth Derbyn a'r ymgeisydd gorau - Llyr Jones fel cystadleuydd yn y Gemau Olympaidd.




Y pâr gorau - Iestyn Wyn a Lois Alaw fel William a Kate



Cymeriad gorau yn Adran yr Oedolion - Wendy Mason fel Mrs Brown




Enillwyr y fflôt oedd Heol Hathren fel Disneyland Paris.

# Cwmann

**Diolch**

Dymuna Anita Williams Gwel y Coed ddiolch yn ddiffuant i bawb a ymwelodd â hi ac hefyd am y cardiau, boldau, a rhoddion a dderbyniodd yn dilyn ei llawdriniaeth.

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Doreen Harries, 21 Heol Hathren ar farwolaeth ei mab yng nghyfraith ac hefyd Bethan a'r teulu ym Mhontsian o golli priod a thad mor annisgwyl.

Cydymdeimlwn hefyd â Maureen Evans a'r teulu, Brynmaen, o golli priod, tad a thadcu, sef Charles Evans.

Hefyd yn ystod mis Mai bu farw Mrs Evelyn Roberts, Awelfor (gynt) yng nghartref Tremle Pencader. Roedd wedi ymgartrefu yno ers sawl blwyddyn bellach.

Rydym wedi colli un o drigolion hynnaf y pentref. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i chwaer Mrs Dicks a'r teulu i gyd.

**Eglwys Sant Iago**

Ar ddydd Sul Mehefin 17eg aeth aelodau a ffrindiau eglwys Sant Iago ar eu pererindod blynyddol. Dechreuwyd yn Abaty Talyllychau a chael hanes yr ardal gan ein ficer. Cawsom wasanaeth yn yr awyr agored dan arch fawr yr Abaty lle ymunodd pawb mewn gweddi, darlleniadau ac emyn yn ddiweddglo.Roedd adnod allan o salm 16 a ddarllenwyd, yn bwrpasol iawn wrth i ni sefyll yn y llecyn hardd, hanesyddol:- 'Syrthiodd y Llinynau i mi mewn mannau dymunol, ac y mae gennyf etifeddiaeth ragorol.' Roedd aelodau eglwys fach Talyllychau yn dod allan ar ôl ei gwasanaeth boreol a chawsom wahoddiad caredig i ymuno gyda nhw mewn cwpaned o de blasus a bisgedi. Bu cymdeithasu bendithiol iawn rhygom fel teulu Duw. Ymlaen yna i ymweld ag eglwys hanesyddol Taliarus cyn ymuno i gael cinio blasus iawn yn yr Hydd Gwyn, Llandeilo. Cawsom gyfle i gerdded ychydig i eglwys Teilo Sant lle bu y ficer yn rhoi hanes yr eglwys ac Efengylau Llandeilo Fawr, yna roedd cyfle i bawb fynd o amgylch yr eglwys hanesyddol a synnu ar y ffordd roedd wedi cael ei haddasu mor ddefnyddiol. Mae Efengylau Llandeilo Fawr bellach yn cael ei cadw yn Eglwys Gadeiriol Caerlwyntgoed. Braf roedd gweld a gwrando hanes yr Efengylau wrth ddefnyddio technoleg canmoladwy y llyfrgell Brydeinig sef- 'Troi'r Tudalennau' ac i gyd-fynd â'r cyfan ceir arddangosfa lawn. Ein galwad olaf oedd i eglwys fach hynafol Llandyfan a chael hanes yn eglwys brydferth. Yr hyn sy'n nodedig yma yw'r hen fedyddfa tu allan i'r eglwys, mae'n debyg fod pobl yn dod yma a mynd i'r dŵr i gael eu hiachau ynghyd â'u bedyddio. Clywir y dŵr pur yn rhedeg mor glir ac oer i'r fedyddfa. Diolchodd Mr Davies i bawb a fu yn cynorthwyo i sicrhau llwyddiant y diwrnod ac i'r Archddeacon Dr William Strange a Mrs Strange am drefnu pererindod mor ddiddorol ac hanesyddol bu yn ddiwrnod bendithiol, cymdeithasol iawn.

**Clwb 225 Mehefin**

1af, D. Mason Ling, Llambed. 2il, Maureen Evans, Cwmann. 3ydd, Eiddig Jones. 4ydd, D Hopkins, Treherbet. 5ed, J Davies. 6ed, Meinir Evans, Ffos y Ffin. 7fed, W Randell, Cwmann. 8fed, F Jones, Cwmann. 9fed, Ruth Jones, Pencarreg. 10fed, Tom James, Cwmann.

**Diolch**

Dymuna Mol Creamer, Brooklands, ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau, anrhegion, galwadau ffon a'r ymweliadau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar. Diolch i bawb am wneud y diwrnod yn arbennig iawn.

Dymuna Maureen, Helen, Clive a'r teulu Brynmaen ddiolch yn gynnes i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Charles, gwr, tad a thadcu annwyl. Diolch yn fawr iawn.



Llun o ferched ysgol Gyfun Llambed efo eu hathrawes Mrs Pat Jones ar ôl cymryd rhan yn Race for Life yn Aberystwyth yn mis Mai.



Darren Jones, Llysgennad PR Archfarchnad Sainsburys, Llambed yn trosglwyddo siec o £2,200 i'w helusen noddedig am 2012 sef Grŵp Scwotiaid 1af Llambed (o'r chwith) Kurtis Davies, Joseff Thomas, Jack O'Sullivan and Sion Evans. Rhes gefn - Katherine Ashton, Darren Jones, Ian Millington and Iris Newman, Arweinydd y Scowtiaid.

**Cofiwch dalu Clwb CLONC mor fuan â phosib - £5 y rhif.**

**Maesglas, Drefach, Llanybydder.**

Rhifyn mis Medi
Yn y Siopau
**6ed Medi**
Erthyglau, Newyddion a Lluniau i law erbyn
**27ain Awst**

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works, Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest
01545 571510
www.sianti.org

Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
*Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref*

Ymgynghorwyr Yswiriant
*Eryl Jones Cyf*
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?
Car, lori, fan, beic modur
Yswiriant tŷ/cynnwys
Teithio
Fferm a busnes
Cyfrifoldeb
Anifeiliaid
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS ARMS

Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn, Prydiau mewn basged ar gael bob nos.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.
Cellan, Llambed
01570 422895

# Drefach a Llanwenog

**Cylch Meithin Drefach**



Derbyniodd y Cylch arolwg gan Estyn ym mis Ebrill 2012 a chafwyd adroddiad canmoladwy iawn. Yn ogystal ym mis Mai cafwyd arolwg Sel Rhagorol (Mudiad Ysgolion Meithrin) a chafwyd tystysgrif Cylch Rhagorol.

Diolch i bawb am eich cefnogaeth yn ystod yr amser hyn, roedd tipyn o waith wedi cael ei wneud.

Os ydych am ymuno gyda ni yn y Cylch, cysylltwch gyda Delyth Jones ar 07854 091043 - croesawn blant o 2-4 oed, ac ar agor o Fore Llun - Iau 8.45 - 11.30 y bore (tymor yr ysgol yn unig).

Yn y llun uchod, gwelir rhai o blant y Cylch.

**Eglwys Santes Gwenog**

Eleni ar Fehefin y 7fed cynhaliwyd Gŵyl Gorawl Deoniaeth Llambed a'r cylch yn Eglwys Sant Luc, Llanllwni. Yn y prynhawn mwynhawyd eitemau safonol gan blant yr ysgolion Sul. Diolch i'r athrawon am y paratoadau trwyadl. Bu gwragedd eglwysi Llanybydder, Llanwenog a Llanwnnen yn cynorthwyo gwragedd St Luc i ddarparu lluniaeth blasus iawn i bawb rhwng y ddwy oedfa. Nos Sul cafwyd canu brwdfrydig iawn dan arweinyddiaeth Mrs Elonwy Davies, Llanybydder gyda Miss Elonwy Pugh yn cyfeilio ar yr organ.

Yr ydym wedi mwynhau gwledd o ganu cynulleidfaol y mis yma. Cynhaliodd C.Ff.I. Ceredigion eu Cymanfa yn yr Eglwys. Bu'r noson yn ddiweddglo hapus a phriodol iawn i benwythnos lwyddiannus o gynnal Rali'r Sir ar fferm Llechwedd. Dymuniadau gorau i frenhines y Sir, Gwennan Davies a'i morynion, gan ddymuno blwyddyn o brofiadau cofiadwy i'w trysori.

Derbyniodd Mrs Lynne Goodall, ein trysorydd, lythyr o ddiolch o 'Tŷ Hafan' am ein cyfraniad o £300 – rhan o elw'r ocsiwn a gynhaliwyd ym mis Mai.

Ein dymuniadau gorau i drigolion yr ardal sydd wedi bod yn anhwylus, a rhai wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Clwb 100 = Mai - 1.Parch Suzy Bale; 2. Megan Jones, Rhandir, Cwmsychbant; 3.Anthony Davies Llanybydder.

Mehefin - 1.Hyw Davies, Ornant Llanwnnen; 2.Iwan Brain, Llangain, 3.Pauline Roberts Jones, Tynporth.

**Agor Parc Chwarae Drefach**



Wedi gwaith caled i gael lle chwarae i blant Drefach, cyflawnwyd y weithred o agor y cae yn swyddogol gan y cyn gynghorwr Haydn Richards ar ddiwrnod y Jiwbili.

Cafwyd te parti i ddathlu'r ddau achlysur. Yn y llun gwelir plant yr ardal ynghyd â rhai o'r swyddogion a fu'n gyfrifol. Dymuniad Pwyllgor y cae chwarae yw diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at lwyddiant y gwaith, yn enwedig i Haydn am fod yn ysbardun i'r holl ymdrech. Cafwyd te i bawb, chwaraeon i'r plant a barbeciw . Diwrnod llwyddiannus yn hanes y pentref.



Dyma lun o Chloe Marie Jones, Ysgol Llanwenog a ddaeth yn drydydd mewn dwy gystadleuaeth Gelf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Bro Eryri eleni. Creodd waith lluniadu a chreadigol 2D i ddathlu penblwydd Mr Urdd.

**Ysgol Llanwenog**

Uchafbwynt y mis i blant blwyddyn pump a chwech oedd mynd am wythnos breswyl i Ganolfan Awyr Agored Pentywyn yn Sir Gaerfyrddin. Bu'r plant yn mwynhau gweithgareddau amrywiol cyffrous megis dringo, abseilio, seithyddiaeth, canwio a syrffio i enwi ond ychydig, yn ogystal â chyfarfod ffrindiau newydd o ysgolion eraill. Hwn oedd y profiad cyntaf oddi cartref i'r mwyafrif o'r plant yma. Cawsant i gyd brofiadau gwych ac amser bendigedig.

Yn ystod yr un wythnos aeth plant y cyfnod sylfaen draw i Ysgol Cwrtnewydd am ddiwrnod, i fwynhau diwrnod o hwyl wedi ei drefnu ar y cyd gyda athrawon ysgolion Llanwenog, Cwrtnewydd a Llanwnnen. Treuliwyd rhan gyntaf y bore yn creu Kebabs ffrwythau, ac ar ôl y gwledda buom yn dawnsio a chanu yng nghwmni Cyw a Sam Tân. Croesawyd Rhidian o'r Urdd yn y prynhawn i gynnal gweithgreddau chwaraeon potes. Derbyniodd y plant i gyd dystysgrif a medal i fynd adref. Cafwyd diwrnod bendigedig.

Hefyd daeth disgyblion blwyddyn tri a phedwar o'r dair ysgol uchod at ei gilydd yn Llanwenog i fwynhau diwrnod o weithgareddau Awyr Agored. Un o'r gweithgareddau oedd gweithio mewn tîm i greu pabell neu gysgod i gysgu 6 person, allan o ddeunyddiau o gwmpas yr ysgol. Gwelwyd ymdrechion dyfeisgar iawn ac ambell i blentyn yn ymdebygu yn fawr i'r enwog Bear Grills !

Pleser oedd croesawu Mr Jo Ford i'r ysgol i gydweithio gyda phlant yr adran Iau ar brosiect diogelwch ar y wê. Yn sgil y sesiynau daeth y plant yn fwy ymwybodol o botensial yn ogystal â pheryglon defnyddio'r wê fyd eang. Cynhaliodd Mr Ford sesiwn ddiddorol gyda'r rhieni hefyd.

Mae plant hynaf yr ysgol wedi bod yn ymarfer ar gyfer cymryd rhan yng nghôr blwyddyn chwech y Sir fydd yn perfformio mewn cyngerdd mawreddog blynyddol yn y Neuadd Fawr yn Aberystwyth mis nesaf.

Hyfryd oedd cael cwmni Miss Mattie sef athrawes wyddoniaeth yn Ysgol Gyfun Llambed yn yr ysgol. Bu'r plant yn dysgu am ddisgyrchant yn y dosbarth mewn awyrgylch hwylus dros ben, trwy wneuthur gweithgareddau amrywiol diddorol.

Cafodd y merched hefyd gyfle i ddatblygu eu sgiliau pêl droed trwy gyfrwng sesiynau hyfforddiant dan ofal Mathew Clement. Roedd y brwdfrydedd yn amlwg ar wynebau'r merched wrth iddynt fwynhau'r gweithgareddau.

**C.Ff.I. Llanwenog**

Llongyfarchiadau i Cerys a Gareth Lloyd a wnaeth briodi ar yr 26ain o Fai, pob lwc a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Fel rwy'n siwr fod pawb yn ymwybodol mi fu mis Mehefin yn un prysur iawn i glwb Llanwenog. Ar yr 2il fe wnaeth y clwb gynnal Rali flynyddol y sir ar fferm Llechwedd, drwy ganiatâd caredig Mr a Mrs Richard Thomas. Roedd y diwrnod yn un llwyddiannus iawn efo'r glaw yn cadw i ffwrdd a phawb yn mwynhau mas draw!

Braf oedd gweld brenhines y sir sef Gwennan Davies a'i morwyn Cerys Lloyd y ddwy o glwb Llanwenog yn edrych mor brydferth ar ddiwrnod y rali. Rwy'n siwr ei fod yn anrhydedd o'r mwyaf i gael sefyll ar y llwyfan yn eich hardal leol o flaen eich ffrindiau, teulu, a chyd-aelodau.



Ar nos Lun y 4ydd, cafwyd Barbecîw er mwyn dathlu'r rali lwyddiannus ac i ddiolch i bawb am eu cyfraniad.

Cyfarfod cloi'r rali oedd ar yr 11eg , ac ar yr 18fed cafwyd noson o 'Sumo Wrestling' yn ysgol Cwrtnewydd, roedd hi'n brofiad newydd i bawb ond yn noson anhygoel.

Taith ddirgel oedd ar yr 25ain, lle aeth yr aelodau i Langrannog i'r cwrs antur.

A chofiwch os yr ydych eisiau gwybod rhagor am y clwb ewch ar ein gwefan sef :-

www.cffillanwenog.org.uk

# Drefach a Llanwenog

**Y Gymdeithas Hŷn**

Ynghanol wythnos o dywydd gwlyb a garw, bu'r aelodau'n ffodus iawn ar ddiwrnod eu trip i'r Gogledd ym mis Mehefin. Llanystumdwy oedd cyrchfan y trip hwn, a chael tipyn o hanes David Lloyd George. Braf oedd cael eistedd yn theatr yr Amgueddfa i weld ffilm yn rhoi ei hanes, ac yna cael amser i fynd o gwmpas yr Amgueddfa, i weld y stôr o roddion a ddaeth i ran Lloyd George o bob ran o'r Deyrnas Unedig. Drws nesaf i'r Amgueddfa, roedd cartref ei ewythr,-'Uncle Lloyd', - lle symudodd y teulu i fyw wedi marwolaeth y tad, a gweithdy'r crydd i'w weld o hyd. Taith fer ar droed wedyn i weld y bedd, man gorffwys Lloyd George ar lan Afon Dwyfor.

Treuliwyd rhyw awr yng Nghricieth i fwynhau ychydig o aer y môr a hufen iâ cyn cychwyn am adre, a chael swper blasus yn Rhydypennau.

Bydd y trip nesa dydd Mercher, Gorffennaf 11eg i Dŷ-ddewi. Enwau i Yvonne, 480590.

**Profedigaeth**

Cydymdeimlwn â Mrs Mair Davies, Dolwerdd a theulu Maesglas yn dilyn colli nai a chefnder annwyl ym mherson Ian Thoams o Bontsian. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf â chwi fel teulu.

**Gwelhad buan**

Gobeithio erbyn hyn fod Gareth Davies, Dôl-gader a Clive Davies, Fronheulog yn well ar ôl treulio rhai diwrnodau yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Graddio**

Llongyfarchiadau i Rhian Davies (Afallon gynt) ar dderbyn gradd B.Sc gydag anrhydedd mewn 'Cwnsleriaeth' ym Mhrifysgol Morgannwg. Dymuniadau gorau iddi gyda'i gwaith i'r dyfodol.

**Penblwydd arbennig**

Dathlodd Jennifer Evans, Murmur y Nant a Gareth Davies, Maesglas benblwyddi arbennig yn ddiweddar.

**Ysgol Llanwenog**

Uchafbwynt y mis i blant blwyddyn pump a chwech oedd mynd am wythnos breswyl i Ganolfan Awyr Agored Pentywyn yn Sir Gaerfyrddin. Bu'r plant yn mwynhau gweithgareddau amrywiol cyffrous megis dringo, abseilio, seithyddiaeth, canwio a syrffio i enwi ond ychydig, yn ogystal â chyfarfod ffrindiau newydd o ysgolion eraill. Hwn oedd y profiad cyntaf oddi cartref i'r mwyafrif o'r plant yma. Cawsant i gyd brofiadau gwych ac amser bendigedig.

Yn ystod yr un wythnos aeth plant y cyfnod sylfaen draw i Ysgol Cwrtnewydd am ddiwrnod, i fwynhau diwrnod o hwyl wedi ei drefnu ar y cyd gyda athrawon ysgolion Llanwenog, Cwrtnewydd a Llanwnnen. Treuliwyd rhan gyntaf y bore yn creu Kebabs ffrwythau, ac ar ôl y gwledda buom yn dawnsio a chanu yng nghwmni Cyw a Sam Tân. Croesawyd Rhidian o'r Urdd yn y prynhawn i gynnal gweithgreddau chwaraeon potes. Derbyniodd y plant i gyd dystysgrif a medal i fynd adref. Cafwyd diwrnod bendigedig.

Hefyd daeth disgyblion blwyddyn tri a phedwar o'r dair ysgol uchod at ei gilydd yn Llanwenog i fwynhau diwrnod o weithgareddau Awyr Agored. Un o'r gweithgareddau oedd gweithio mewn tîm i greu pabell neu gysgod i gysgu 6 person, allan o ddeunyddiau o gwmpas yr ysgol. Gwelwyd ymdrechion dyfeisgar iawn ac ambell i blentyn yn ymdebygu yn fawr i'r enwog Bear Grills !

Pleser oedd croesawu Mr Jo Ford i'r ysgol i gydweithio gyda phlant yr adran Iau ar brosiect diogelwch ar y wê. Yn sgil y sesiynau daeth y plant yn fwy ymwybodol o botensial yn ogystal â pheryglon defnyddio'r wê fyd eang. Cynhaliodd Mr Ford sesiwn ddiddorol gyda'r rhieni hefyd.

Mae plant hynaf yr ysgol wedi bod yn ymarfer ar gyfer cymryd rhan yng nghôr blwyddyn chwech y Sir fydd yn perfformio mewn cyngerdd mawreddog blynyddol yn y Neuadd Fawr yn Aberystwyth mis nesaf.

Hyfryd oedd cael cwmni Miss Mattie sef athrawes wyddoniaeth yn Ysgol Gyfun Llambed yn yr ysgol. Bu'r plant yn dysgu am ddisgyrchant yn y dosbarth mewn awyrgylch hwylus dros ben, trwy wneuthur gweithgareddau amrywiol diddorol.

Cafodd y merched hefyd gyfle i ddatblygu eu sgiliau pêl droed trwy gyfrwng sesiynau hyfforddiant dan ofal Mathew Clement. Roedd y brwdfrydedd yn amlwg ar wynebau'r merched wrth iddynt fwynhau'r gweithgareddau.

# Llanybydder



Agorwyd Ardal Chwarae dan do newydd Ysgol Gynradd Llanybydder yn swyddogol gan Y Cyng. Sylvia Maskelyne, Cadeirydd y Cyngor Cymuned ynghyd â Kevin Davies, prif noddwr a Cyng. Pamela Purke. Yn y llun hefyd mae Robert Howells, Pennaeth, Meinir Davies, athrawes, Elinor Rewstron, Cadeirydd y C.RH.A a staff yr ysgol, gyda rhai o ddisgyblion yn mwynhau yn yr ardal chwarae newydd.

**Taith Feicio Noddedig Siambr Fasnach Llanbedr Pont Steffan**

**Awst 5ed**


am 10.30 y bore o Glwb Rygbi Llambed.
£5 i blant o gwmpas Llanfair Clydogau; £10 i oedolion o gwmpas Llanddewi Brefi a'r oedolion profiadol o gwmpas Tregaron.
Lluniaeth i ddilyn yn y Clwb Rygbi a'r elw tuag at Oleuadau Nadolig y Dref.


Ceris Jones
yn trin gwallt yn eich cartref



Torri a sychu, steilo a lliwio, cwrlo a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.
Prisiau rhesymol a
Diwrnod gostyngiad i'r henoed
**Ffoniwch: 07738 492613**
*Cwmann*
*ond yn barod i deithio'r ardal.*

WD Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants
Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk
Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



**CEGIN GWENOG**
Abernant, Llanwenog
**Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur**
- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

*Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach*
Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

LING DI LONG
**Bwyty Tsieinaidd a Chludfwyd**
13 Stryd y Bont, Llambed
**01570 422009**
Ar agor:
**12:00-14:30 a 17:00-23:00**
Cynigion arbennig bwffe
ac amser cinio
Darllenwch ein bwydlen
a'n cynigion arbennig ar Facebook

**Gwasanaethau Coed Teifi**
**Tree Services**
Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau / Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfynbris am ddim
Coed tân ar werth
Lyn Davies
01239 851001
07796 682448

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR.
COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
**1 Sgwâr Harford, Llambed**
☎ 01570 422206 📠 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

# Llanbedr Pont Steffan



Elin Jones AC agorodd Fore Coffi Aelwyd yr Urdd Llanbedr Pont Steffan ar fore Sadwrn 26ain Mai yng Nghapel San Tomos, Llanbed. Mae Elin Jones yn gyn aelod o'r Aelwyd a bu'n hel atgofion o'r dyddiau hynny ac am y profiad o ennill Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd pan oedd yn aelod o Gôr yr Urdd rhyw ddeg mlynedd ar hugain yn ôl. Cafwyd eitemau gan Barti Canu'r Adran, Lowri Jones, Meirion Thomas a Pharti Llefaru'r Aelwyd. Yn y llun gydag Elin Jones mae aelodau Parti Llefaru'r Aelwyd a fu'n cystadlu'r yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri.

**Cymdeithas Hanes**

Daeth tymor 2011-12 i ben ym mis Mehefin, wrth i nifer dda o'r aelodau ymweld â'r Eglwys Eidalaidd ar safle'r Carcharorion Rhyfel yn Henllan, ac yna ymlaen i'r Amgueddfa Wlân yn Nrefach Felindre.

Croesawyd pawb i'r safle yn Henllan gan berchennog y lle, Mr James Thompson, a Mr Jon Meirion Jones, Llangrannog. Cafwyd y stori rhyfeddol o sut y bu i fil o garcharorion rhyfel o'r Eidal gael eu cludo o Ogledd yr Affrig i Henllan, a'u hamser yno.

Ym 1976, wrth i Jon Meirion Jones weithio gyda'i ddisgyblion yn Ysgol y Ferwig, talwyd ymweliad ganddynt i weld yr Eglwys yn Henllan. Gofynnodd y plant pwy oedd wedi paentio'r lluniau ar y muriau, a gwneud y gwaith cain o fewn yr Eglwys. Y syndod oedd nad oedd neb yn gwybod. Ond o ddilyn y prosiect ymlaen, cafwyd enw a chyfeiriad yn yr Eidal, a chysylltodd yr ysgol â rhai o'r cyn-garcharorion,- a hwythau heb yr un cysylltiad â Chymru ers dychwelyd i'w gwlad ym 1946.

Roedd yr hanes yn un emosiynol iawn, a diolchwyd yn gynnes gan Selwyn Walters i James Thompson ac i Jon Meirion Jones am y cyfle i gael ymweld â'r Eglwys unigryw hon, a chael hanes y cysylltiad a fu wedyn 30 o flynyddoedd yn hwyrach.

Yn dilyn darlith mis Mai ar hanes y diwydiant gwlân yn Nyffryn Teifi, braf oedd cael gweld beth a ddigwyddai i'r cnu wedi iddo gyrraedd y felin. Tywyswyd yr aelodau o gwmpas yr Amgueddfa gan un o'i gweithwyr, gan esbonio'r prosesau yn eu tro, cyn gweld dau hyd o frethyn yn cael eu creu ar y peiriannau.

Penny David oedd wedi trefnu'r diwrnod arbennig hwn, a thalwyd diolch cynnes iddi hithau gan y Cadeirydd.

Bydd y Gymdeithas yn ail-gychwyn ym mis Medi. Manylion eto.

**Priodas Dda**

Bu'n ddydd o lawen chwedl yng nghapel Bwlch-llan ddydd Sadwrn 26ain Mai, ble cynhaliwyd gwasanaeth priodas Delyth Gwenllian, merch Sammy a Christina Morgans, Blaenfallen, Talsarn, â Rob, mab Albert a Christine Phillips o Ben-coed.

Gweinyddwyd y gwasanaeth priodas gan ewythr i Delyth, y Parchg Stephen Morgan, Trefilan, ac yn cynorthwyo roedd y Parchg Andrew Lenny, Aberystwyth, ffrind a gweinidog Delyth. Neil Phillips, brawd y priodfab, oedd y gwas priodas, a Mair Lenny, ffrind y briodferch, oedd y forwyn. Roedd Delyth wedi'i gwisgo mewn ffrog o sidan a les gwyn, a Mair mewn ffrog o sidan coch tywyll; gwnaethpwyd teis Rob a Neil o'r un sidan coch.

Yn gwasanaethu wrth yr organ roedd cyfnither y briodferch, Eirlys Madoc-Jones, a chafwyd darlleniadau o'r Ysgrythur gan Haf Hughes (cyfnither Delyth) ac Iain McCall (ffrind Rob). Roedd Iain hefyd yn dywysydd, yn ogystal â phedwar cefnder y briodferch – Ceredig Morgan, Gwion Ifan Rees, Iwan Madoc-Jones a Gruffydd Madoc-Jones.

Y ddau yrrwr oedd Bryn Hughes a Mariel Rees, ewythr a chyfnither y briodferch. A bu'r bws deulawr 'Routemaster' – sy'n eiddo i ffrindiau'r priodfab – yn dipyn o atyniad i drigolion Ceredigion wrth iddo gario gwesteion rhwng Aberystwyth a Bwlch-llan! Trefnwyd y blodau yn y capel gan Polly Morgan. Bu Dan a Mariel yn gyfrifol am osod baneri a balŵns o amgylch Bwlch-llan ac adeiladu bwa y tu allan i'r capel; cafwyd cymorth Eirlys, Haf, Geraint a Delyth i addurno'r bwa â blodau.

Yn dilyn y gwasanaeth, mwynhawyd gwledd yng ngwesty Llety Parc, Aberystwyth, ac yn yr hwyr cafwyd pryd bwyd a thwmpath dawns i ddathlu'r briodas. Darparwyd yr adloniant gan Garym Roberts a'i fand. Ym mharti'r hwyr hefyd y rhannwyd y gacen briodas, wedi'i choginio gan y ddwy fam yn ogystal â'r pâr priod, a'i haddurno gan Morfudd Jones.

Mae Rob yn Gardi mabwysiedig, wedi ymgartrefu yn Llanbedr Pont Steffan ers 1995 pan ddaeth i astudio Cymraeg yn ngholeg y Brifysgol, ac mae'n gweithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Mae Delyth hithau yn gweithio yn Aberystwyth, yn y Cyngor Llyfrau, wedi astudio ym Mhrifysgolion Bangor ac Aberystwyth. Treuliodd y pâr priod eu mis mêl yn Dingle, Iwerddon, ac maent bellach wedi gwneud eu cartref yn Stryd Newydd, Llambed.

**Merched y Wawr**

Ar nos Lun 11fed o Fehefin daeth y gangen ynghyd ger capel Shiloh i fynd ar helfa drysor ar draed wedi ei threfnu gan Dilwen Roderick a Morfudd Slaymaker. Cafodd pawb hwyl a sbri ac roedd tipyn o grafu pen a cherdded yn ôl ac ymlaen yn y Stryd Fawr a Stryd y Bont yn chwilio am atebion. Braf oedd gweld gwen ar wyneb pawb wrth iddynt gyrraedd diwedd y daith yng Nghaffi Mark Lane.

Ar ôl pryd o fwyd blasus iawn cafwyd cyfarfod byr gyda Morfudd yn llongyfarch Dilys Godfrey am ennill gwobr yng Ngŵyl Fai Rhanbarth Llandysul. Cyhoeddwyd yr atebion a marciau'r helfa drysor gan Dilwen. Yn gyntaf oedd Elma Phillips a Veronica James, yn ail oedd Mary Davies a Gwyneth Morgan a'r trydydd oedd Eryl Jones a Verina Roberts.

Estynodd Dolly Yang ddiolch i Dorothy ag Elfan James am y lluniaeth hyfryd.

Enillydd y raffl oedd Ann Lewis.

Estynodd Noeleen Davies. ein Llywydd dros y tymor nesaf, ddiolch cynnes i Dilwen a Morfudd am eu gwaith caled ac am ddarparu rhaglen mor ddiddorol dros y tymor.

Edrychwn ymlaen i gwrdd a'n gilydd eto yn y tymor nesaf a chroeso cynnes i unrhyw un sydd am ymaelodi am y tro cyntaf gan gynnwys dysgwyr.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun 10 fed o Fedi yn Festri Shiloh am 7.30 y.h.

**Diolch**

Dymuna Rosemary Davies, Brynteg, Heol Y Wig, Llanbed ddiolch o galon i'w theulu am ei gofal, ac i'w ffrindiau am y llu o gardiau, anrhegion, galwadau ffôn a'r ymweliadau a dderbyniodd o ganlyniad i'w llawdriniaeth i gael penglin newydd yn ddiweddar. Diolch hefyd i nyrsus y gymuned yn Llanbed am ei gofal arbennig. Mae yn gwerthfawrogi y cyfeillgarwch a'r caredigrwydd yn fawr iawn.

**Bore Coffi yr Urdd**

Cynhaliwyd Bore Coffi yn Eglwys San Tomos yn ddiweddar wedi ei threfnu gan Adran ac Aelwyd yr Urdd Llambed. Croesawyd pawb yn gynnes gan Llinos Jones cyn cyflwyno Elin Jones Aelod Cynulliad Ceredigion i agor y Bore Coffi. Mae Elin yn gyn aelod o'r Aelwyd ac yn ei hanerchiad bu'n hel atgofion o'r cyfnod hapus hwnnw yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn cynnwys canu yng Nghôr yr Urdd a brofodd lwyddiant mawr.

Yn ystod y bore mwynhawyd eitemau safonol gan barti unsain yr Adran a grŵp llefaru yr Aelwyd ynghyd ag unawdau swynol gan Meirion Thomas a Lowri Elen.

Diolchodd Geinor Medi i Elin am dderbyn ein gwahoddiad ac am ei rhodd hael, i'r Cynghorydd a Mrs K Ramaya Maer a Maeres y dref am eu rhodd caredig hwythau, i'r aelodau a'u rhieni am eu cyfraniadau i'r stondinau ac am eu cymorth yn ystod y bore, i swyddogion ac aelodau San Tomos am eu cydweithrediad parod a'u haelioni ac i bawb a ddaeth ynghyd i gefnogi. Bu'n fore llwyddiannus iawn ac o ganlyniad codwyd £450 tuag at waith yr Urdd yn lleol a chostau cystadlu Eisteddfod Genedlaethol Eryri.

**Llwyddiant yr Aelwyd**

Unwaith eto bu aelodau Aelwyd yr Urdd yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd eleni yn Eryri. Llongyfarchiadau calonnog i'r grŵp llefaru blwyddyn 9 ac iau dan hyfforddiant Elin Williams am ddod yn drydydd allan o 13. Nid ar chwarae bach mae cyrraedd llwyfan y Genedlaethol gan fod y safon mor uchel. Bu'n brofiad arbennig i'r deuddeg yn y grŵp a thri ohonynt yn profi'r wefr am y tro cyntaf.

Er na ddaeth llwyddiant i ran pawb o'r Adran a'r Aelwyd roedd yr aelodau wedi rhoi o'u gorau ac wedi derbyn canmoliaeth am eu perfformiadau graenus.

Diolchir yn ddiffuant i'r rhieni am eu parodrwydd i gludo'r plant i Eryri ac i bawb am eu cefnogaeth.

# Llanbedr Pont Steffan

Mwynhawyd ein hymweliad â'r Eisteddfod yn fawr iawn er gwaetha'r glaw a'r gwynt.

Nos Fawrth cyn y cystadlu bu criw o'r Aelwyd yn aros mewn gwesty ym Mangor ac yn cymryd rhan mewn cwis ar radio Cymru yn erbyn Aelwyd Dyffryn Nantlle. Capten y tîm oedd Teon ac yn ei gynorthwyo roedd Caryl, Rhiannon, Elan a Mari. Bu'r gyflwynwraig Lisa Gwilym yn sgwrsio â Teon a chafodd hi a gwrandawyr Radio Cymru lawer o hwyl a sbri yn ei gwmni gyda'i hiwmor iach. Seren y dyfodol yn wir! Ar ddiwedd y cwis Aelwyd Llambed oedd yn fuddugol o ddau farc a hynny yn erbyn aelodau blwyddyn12 Dyffryn Nantlle!! Da Iawn Teon a'r criw.

Llongyfarchiadau hefyd i Morgan Lewis am gipio'r wobr gyntaf am greu gwefan mewn cystadleuaeth i aelodau blynyddoedd 7,8 a 9 yn Eisteddfod Eryri.

**Dylai'r diolch canlynol a'r llongyfarchiadau sy'n dilyn fod wedi ymddangos yn Clonc ymhell cyn hyn.**

Derbyniwch ein ymddiheuriadau diffuant.

**Diolch**

Dymuna Mary Y Coach House ddiolch o galon am y cardiau, blodau, rhoddion a dymuniadau da ar achlysur pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch i'r teulu am ddiwrnod hapus yn dathlu. Diolch yn fawr iawn.

**Babi Newydd**

Llongyfarchiadau i Geraint Pugh gynt o Frynheulwen, Heol Tregaron a'i wraig Sian ar enedigaeth eu merch Elin Mair ar y 24ain o Fawrth 2012.

**Cydymdeimlad**

Estynnir cydymdemlad dwysaf â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

**Diolchiadau**

Dymuna Margaret Roberts, Madryn, ddiolch yn fawr i bawb am y llu cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur pen-blwydd arbennig ym mis Mai.

Dymuna Ieuan, Margaret a'r teulu, Madryn ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam, mam yng nghyfraith, nain a hen nain, sef Iona Roberts, gynt o Bwllheli, Gwynedd.

Dymuna Caradog Jones, 1 Maesyfelin ddiolch o galon i bawb am y cardiau niferus a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 70 oed.

Dymuna Dewi Jones a theulu Gwargorof, Pumsaint, ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'u caredigrwydd a phob cydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth o golli ei briod annwyl Ruth, gwraig a mam, a hen - famgu dyner a hunodd yn dawel yn ei chartref yn 94 oed ar y 12fed o Fai 2012.

Dymuna Garon Williams 10 Ffynnonbedr ddiolch i bawb am yr holl gardiau, galwadau ffôn a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn dilyn cyfnodau yn ysbytai Treforys, Glangwili a Thregaron yn ddiweddar ar ôl ei ddamwain. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn.

**Noddfa**

Bu misoedd Mai a Mehefin yn rhai prysur yn hanes Noddfa. Cynhaliwyd Oedfa Eciwmenaidd ar 24 Mai ar thema Cymorth Cristnogol a chroesawyd pawb yn gynnes gan John. Cymerwyd rhan gan aelodau eglwysi Brondeifi, Noddfa, Sant Iago, Sant Pedr, Sant Tomos, Shiloh, Soar a Mynydd Carmel. Cynrychiolwyd Noddfa gan Alun a Derek. Trwy gyfrwng "Power Point" (diolch i'n Gweinidog) diddorol oedd gwylio ffilm yn dangos y gwaith amhrisiadwy a gyflawnir gan Gymorth Cristnogol yn Sierra Leone. Cyfoethogwyd yr oedfa yn fawr gan neges bwrpasol a diffuant y Parchedig Jill Tomos.

Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Janet. Cyn troi tuag adref cafwyd cyfle i gymdeithasu yn y festri uwch paned a baratowyd gan chwiorydd Noddfa.

Bu'r chwiorydd yn rhan o'r paratoadau ar gyfer oedfa arbennig a gynhaliwyd yn Aberdaur ar 30 Mai (gwelir y manylion yng ngholofn Llanybydder)

Bu'r chwiorydd yn paratoi te i'r "Ifanc o Galon" yn Neuadd Fictoria ar 13 Mehefin.

Mwynhaodd yr Henoed wledd ardderchog o ddanteithion amrywiol blasus iawn. Yn dilyn hyn bu criw o ferched Ysgol Sul Noddfa yn diddanu ac roedd pawb wrth eu bodd yn gwrando ar eu canu swynol i gyfeiliant Janet ar y piano. Braf oedd gweld y Mamau ac ambell i Fam - gu hefyd yn ymuno gyda'r plant i gloi'r adloniant. Diolchodd Dorothy yn gynnes i'r Parchedig Jill Tomos ac aelodau Noddfa, Bethel Silian a Chaersalem am brynahwn pleserus dros ben.

Erbyn i Clonc ddod o'r wasg bydd cyfarfod y Senana wedi ei gynnal yn Noddfa ar y trydydd o Orffennaf.

**Tlws John a Ceridwen Hughes**

Mae'n bellach yn ugain mlynedd ers cyflwyno Tlws John a Ceridwen Hughes am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Bro Glyndwr 1992 i gydnabod cyfraniad gwirfoddol dros ieuenctid yng Nghymru. Eleni yn Eryri cynhaliwyd dathliad arbennig ar y dydd Iau i nodi'r achlysur. Cynhaliwyd derbyniad ar faes yr Eisteddfod i'r cyn enillwyr ac aelodau'r teulu oedd yn cynnwys tri o ardal Clonc sef Janet Evans (enillydd 1998) Odwyn Davies (enillydd 1999) ac Elonwy Davies (enillydd 2007) . Yna nos Iau roedd y cyn enillwyr yn rhan o'r seremoni ar lwyfan y pafiliwn pan gyflwynwyd y Tlws i enillwyr 2012 sef Bryn a Marian Tomos, Bangor.

**Gwellhad Buan**

Mae pawb yn Llambed a'r cylch yn falch iawn bod Garon 10 Ffynnonbedr nôl gyda'i deulu yn Llambed yn dilyn ei ddamwain. Pob dymuniad da i ti Garon am wellhad buan. Dal ati i wella.

**Ysgol Sul Noddfa**

Mae'r aelodau wedi mwynhau seibiant haeddiannol yn dilyn paratoadau'r Gymanfa Ganu. Bu Lowri (yn absenoldeb Tomos), Osian Jones, Lisa, Elan, Beca, Dafydd, Sion, Osian Roberts, Rhys Tom a Gwenllian yn cyhoeddi emynau ym Methel Cwm Pedol a phob un ohonynt yn gwneud hynny yn ardderchog. Daw'r tymor presennol i ben gydag oedfa awyr agored yn Ysgol Ffynnonbedr am 3.30 ar 15 Gorffennaf (tu fewn os yw'r tywydd yn anffarfiol) gyda gêmau a phicnic yn dilyn. Estynnir croeso cynnes i'r plant, y bobl ifanc, rhieni, aelodau a ffrindiau'r achos yn Noddfa. Dewch yn llu.

**Llwyddiant**

Yn dilyn ei llwyddiant yn yr Wyl Gerdd Dant y llynedd cyrhaeddodd Siwan Mason o Lanfairpwll, wyres Bryn a June Mason Llambed y brig unwaith eto. Hi enillodd y wobr gyntaf yn yr unawd cerdd dant i flynyddoedd 5 a 6 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri eleni a hefyd fe'i dyfarnwyd yn y trydydd safle yng nghystadleuath yr unawd. Llongyfarchiadau calonnog i Siwan ar ei llwyddiant mawr a phob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

**Beirniad Cenedlaethol**

Braf oedd gweld Delyth Medi, gynt o Landre, Heol y Bont yn cael yr anrhydedd unwaith eto o feirniadu yn Eisteddfod Genedlathol yr Urdd. Eleni Delyth oedd un o'r beirniaid yn yr adran leisiol.

**Eisteddfod Eryri**

Yn yr adran Roc a Phop yn Eryri eleni cipiwyd y drydedd wobr yn y gystadleuaeth cân wreiddiol i grŵp blwyddyn 6 ac iau gan 'Sgwts y Wern' sef disgyblion Ysgol y Wern Caerdydd. Cyfansoddwyd y gerddoriaeth a'r geiriau gan eu hathrawes Mair Long gynt o Lambed.

Ymddangosodd Steffan Long sawl gwaith ar lwyfan Eisteddfod Eryri. Roedd yn aelod o grŵp clocsio Bro Tâf oedd yn gyntaf, y gân actol oedd yn ail a'r grŵp dawnsio gwerin oedd yn drydydd. Hefyd roedd yn canu'r soddgrwth yng ngherddorfa Ysgol y Wern gipiodd y drydedd wobr ac yn aelod o'r grŵp roc a phop hefyd yn drydydd.

**Gyrfa Chwist – Cartref Hafan Deg**

Ar 25ain o Ebrill, cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr. Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Enillwyr fel a ganlyn – Dynion: Cydradd 1af – Gwendoline Jones, Llanybydder a Catherina Davies, Aberaeron, Cydradd 2il – Ifan J. Jones, Brohenllys, Felinfach a Gwendoline Davies, Llanwnnen. Merched: 1af – June Mason, Rhes Harford, Llambed, 2il – Morfudd Slaymaker, Llambed, 3ydd – Nancy Davies, Heol y Wig, Llambed. Carden Miniature: Dynion – Joan Lewis, Stryd Newydd, Llambed, Merched – Beryl Roach, Brohenllys, Felnifach. Bwrw Allan: Enillwyr – Mary Jones, Stryd y Bont, Llambed a Nancy Davies, 2il – Sara Humphreys, Alltyblaca a Catherina Davies.

Gyrfa Chwist 9fed o Fai

Enillwyr fel a ganlyn – Dynion: 1af – Cathrina Davies, Aberaeron, 2il – Mai Williams, Tregaron, 3ydd – Ifan J. Jones, Brohenllys, Felinfach. Merched: 1af – Lil Thomas, Ffostrasol, 2il – Nancy Davies, Heol y Wig, Llambed, 3ydd – Nana Davies, Stryd Newydd, Llambed. Carden Miniature – Dynion: Marged Phillips, Tregaron, Merched: Morfudd Slaymaker, Llambed. Bwrw Allan: Enillwyr – Mai Williams a Morfydd Slaymaker, Ail – Nancy Davies a Edward Lockyer, Hafandeg. Bydd Gyrfa Chwist Mehefin ar y 6ed a'r 20fed. Croeso cynnes i bawb.

**Gyrfa Chwist 6ed o Fehefin**

Enillwyr fel a ganlyn – Dynion: Cydradd 1af – Mai Williams, Tregaron ac Yvonne Jones, Tregaron, 2il – Peggi Davies, Brohenllys, Felinfach, Merched: 1af – Eileen Colbourne, Ffostrasol, 2il – Joan Lewis, Stryd Newydd, Llambed, 3ydd – Ceri Lloyd, Ffostrasol, Carden Miniature: Dynion – Marged Phillips, Tregaron, Merched – Jean James, Trelech, Bwrw Allan: Enillwyr – Eileen Colbourne a Edward Lockyer, Hafan Deg, Ail – Mai Williams a Nanna Davies, Stryd Newydd, Llambed.

**Gyrfa Chwist 20fed o Fehefin**

Enillwyr fel a ganlyn – Dynion: 1af – Gwendoline Jones, Llanybydder, 2il – Ray Jenkins, Llanybydder, 3ydd – Ifan J. Jones, Brohenllys, Felinfach, Merched: 1af – Lil Thomas, Ffostrasol, 2il – Mary Davies, Cwmsychbant, Cydradd 3ydd – Dilwen Rodrick, Llambed, Ceri Lloyd, Ffostrasol a

# Llambed

Cathrina Davies, Aberaeron, Carden Miniature: Dynion – Peggi Davies, Brohenllys, Felinfach, Merched – Ruth Davies, Tregaron. Bwrw Allan: Enillwyr – Ray Jenkins, Llanybydder a Sarah Humphreys Jones, Alltyblaca, Ail – Peter Jones, Llambed a Morfydd Slaymaker, Llambed.

Bydd y Gyrfaoedd Chwist Gorffennaf ar y 4ydd a'r 18fed. Croeso cynnes i bawb.

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau i Meirion Sion Thomas, Gilfachwen am ennill ar yr unawd rhwng 12-15 oed yn Gŵyl Fawr Aberteifi. Hefyd, cafodd ail yn Llefaru 12-15 ac ail yn yr Alaw Werin dan 15 oed.



Y Faer a'r Faeres newydd Llambed Cllr Kistiah a Carol Ramaya yn y seremoni sefydlu a gynhaliwyd yn Hen Neuadd y Coleg, Coleg Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Llambed ar y cyntaf o Fehefin, 2012.

# Gorsgoch

**Priodas Dda**

Priododd Helen Phillips, Maesygarn a Ceri Jones, Gelliorlas, Abercych ar Sadwrn yr 28ain o Ebrill, yng Nghapel Brynhafod, Gorsgoch, Cynhaliwyd y wledd briodas yng Nghwesty'r Cliff, Gwbert.Treuliwyd eu mis mêl ar Ynys Cape Verde ac maent bellach wedi ymgartrefu yng Nghwmteg, Abercych.

**Swydd Newydd**

Llongyfarchiadau i Enfys Hatcher, Cefn Hafod ar ei dyrchafiad i fod yn Bennaeth Adran y Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Tregaron. Bydd Enfys yn dechrau ar ei swydd ym mis Medi. Pob dymuniad da.

# Llangybi a Betws

**C.Ff.I. Bro'r Dderi**

Mae'r mis diwethaf wedi bod yn un tu hwnt o brysur i CFfI Bro'r Dderi yng nghanol bwrlwm y rali a nifer helaeth o aelodau yn eistedd eu harholiadau TGAU a Lefel A.

Cafwyd rali lwyddianus iawn yn Llechwedd, Llanwenog eleni. Roedd presenoldeb Bro'r Dderi yn amlwg iawn drwy gydol y dydd. Cafodd Gethin Morgan a Delyth Evans gyntaf yng nghystadleuaeth y coginio am goginio Canapés ar gyfer priodas a roedd y safon yn uchel iawn drwy gydol y gystadleuaeth.

Cipwyd y wobr gyntaf am weddnewydd priodasol gan Dewi Uridge a Alis Gwyther. Yn arddangosfa'r prif gylch cafwyd profiad unigryw iawn o weld dehongliad Aron Dafydd, Rhys Douglas, Tomos Williams a Steffan Roberts o briodas o 'Gavin and Stacey' a wedyn cael llawer o sbort yn yr It's a knockout'. Da iawn bois am ddod yn ail. Buodd Sioned Douglas a Beca Creamer yn gwisgo'r briodferch, set Meinir Douglas un o'n arweinyddion mewn ffroc briodas allan o bapur newydd a daethpwyd yn ail.

Cafodd Meg Edwards a Elin Gwyther dipyn o hwyl yn y 'Generation Game' yn dod yn ail gyda un yn addurno cacennau a'r llall yn gwneud Buttonhole. Yn y barnu stoc, ail daeth Rhodri Pugh Davies yn beirniadu moch magu a Caryl Jacobs yn chweched.

Er na chafwyd gwobr yn y Ffug Briodas, y crefft a'r Deunydd Priodas, pleser oedd eu gweld – da iawn.

Rhaid i ni ddiolch fel clwb i bawb a fu ynghlwm â helpu Bro'r Dderi yn y rali; gwerthfawrogwn eich hymroddiad. Serch yr holl gystadlu brwd cafwyd llawer o fwynhad a dysgu profiadau newydd drwy'r dydd.

Ar ddydd Sul y 24ain o Fehefin cynhaliwyd cystadleuaeth Pêl-osgoi Cymru a enillwyd y gystadleuaeth mewn rownd derfynol gyffrous iawn. Y tîm oedd Rhys Douglas, Steffan Roberts, Elin Gwyther, Nia Gwyther, Tomos Williams, Dewi Uridge, Sioned Douglas ac Aron Dafydd.

Y cinio clwb fydd nesaf a phob lwc i bawb sy'n mynd ymlaen i'r Sioe Frenhinol a phob lwc i bawb fydd yn derbyn eu canlyniadau TGAU eleni.

**Ysgol Y Dderi**

Wythnos ar ôl y gwyliau, aeth Mrs Heini, Miss Fiona a chriw o Flwyddyn 6 i Kolding, Denmarc, i fwynhau cyfnod o ddysgu a chymdeithasu gyda ffrindiau, a hynny mewn tywydd dipyn yn well nag y cawsom ni yma yng Ngheredigion adeg hynny! Dyna lwcus mae'r disgyblion ifanc yma i gael y fath brofiadau.



I gyd-fynd â thaith y fflam Olympaidd drwy Geredigion yn ddiweddar, cawsom Wythnos Olympaidd yn yr ysgol, gydag amryw o weithgareddau yn ymwneud â chwaraeon a digon o gyfleoedd hefyd i godi ymwybyddiaeth ac i ddysgu am hanes y Gêmau.

Cafodd Blwyddyn 3 gyfle wedyn i weld arddangosfa arbennig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. "Dilyn y Fflam" oedd teitl yr arddangosfa, a bu'r plant yn dysgu am gyfraniad y Cymry yn y Gêmau Olympaidd ar hyd y blynyddoedd. Cafwyd cyfle hefyd i gwrdd â un o'r bechgyn ifanc a fu'n cario'r ffagl yn Aberystwyth a chael tynnu llun gyda'r ffagl go-iawn!

Er gwaetha'r tywydd ansefydlog diweddar, aeth diwrnod mabolgampau'r ysgol yn ei flaen yn hwylus iawn. Buom yn ddigon lwcus i gael diwrnod braf a phrynhawn hwyliog a chyffrous, a phawb wedi mwynhau gwylio holl blant yr ysgol mewn amrywiaeth o rasus....... ac ambell i riant ac aelod o staff hefyd! Roedd y sgoriau terfynol yn agos iawn, ond Dulas oedd y tîm buddugol ar ddiwedd y dydd. Da iawn chi.

Ar yr un diwrnod, aeth plant o flynyddoedd 4, 5 a 6 i Dregaron ar ôl ysgol, i gymryd rhan mewn twrnament pêl droed. Da iawn chi blant am gystadlu mor frwd ac am wneud eich gorau.

Yn ystod y tymor hwn mae plant Blwyddyn 2 wedi bod yn ddigon ffodus i gael cwmni myfyrwraig o Goleg y Drindod, ac maent wedi mwynhau profiadau hyfryd yng nghwmni Miss Rhian Mair Davies. Hoffai pawb ddweud diolch yn fawr wrthi am ei gwaith a dymuno'n dda iddi ar gyfer y dyfodol. Mae cyfnod cyffrous iawn o flaen Mrs Kate, athrawes Bl.2, hefyd, wrth iddi gychwyn ar ei chyfnod mamolaeth; 'rydyn ni i gyd yn dymuno'r gorau iddi ac yn edrych ymlaen yn eiddgar at glywed unrhyw newyddion! Yn ystod wythnosau olaf y tymor mi fyddwn yn croesawu Miss Lilian yn ôl o'i chyfnod mamolaeth hithau. 'Rwy'n siwr fod plantos y dosbarth Meithrin a Derbyn yn edrych ymlaen, ond hefyd yn drist i ffarwelio gyda Miss Leonie a fu'n eu dysgu dros y misoedd diwethaf – diolch yn fawr iawn iddi hi am ei gwaith a'i chwmni. Un arall o staff yr ysgol sy'n ein gadael, er mwyn ymddeol, ar ddiwedd y tymor yw Mrs Anona Ebenezer. Ar ran yr holl staff a phlant, hoffwn ddiolch iddi am ei chefnogaeth a'i chymorth, a dymuno ymddeoliad hapus a phrysur iddi! Mae hwn yn gyfle hefyd i ni fel ysgol ddymuno'n dda i blant Blwyddyn 6 sydd ar fin ein gadael er mwyn mynd i wahanol ysgolion uwchradd. Pob hwyl iddynt i gyd.

Cofiwch am ein Ffair Haf a gynhelir ar ddydd Sadwrn y 7fed o Orffennaf, rhwng 2 a 4 o'r gloch y prynhawn. Croeso cynnes i bawb ymuno gyda ni.

A chydag ymweliadau â Phentre' Bach, Gwersyll yr Urdd Llangrannog a Chaerdydd, Abertawe a Fferm Antur Cantref, Aberhonddu ar y gorwel, mae'n argoeli'n ddiwedd tymor hwyliog a phrysur iawn i ni!



Mae teithio wastad wedi bod yn rhan amlwg o fywyd Ysgol y Dderi, a dydy'r mis diwethaf yma heb fod yn eithriad. Yn ystod yr wythnos cyn gwyliau hanner tymor, aeth pump o blant Blwyddyn 6 a Miss Caryl draw i Agliana yn yr Eidal. Aeth Mrs Ann yn gwmni iddynt hefyd, ac fe gawsant daith bleserus yn cwrdd â ffrindiau'r ysgol ac yn cael blas o fywyd Ewropeaidd.

# Llanbedr Pont Steffan



Noson wobrwyo tîm pêl-droed dan 12 Llambed gyda'i hyfforddwraig Claire. Hefyd yn y llun mae Gwion Edwards o Glwb Abertawe. Derbyniodd y chwaraewyr i gyd fedalau am eu hymdrechion drwy'r flwyddyn a chafodd rhai unigolion dariannau ychwanegol:-

Cefn:- Aled John, ( Balchder Llambed), Iestyn Evans (Gôl y Tymor), Iestyn Edwards (Chwaraewr sydd wedi dangos y gwelliant mwyaf),

Blaen:- Sam Brammeld (Prif sgoriwr mewn twrnament), Leon Holmes (Prif sgoriwr  y gynghrair), Osian Jones (Chwaraewr y Rhieni, Chwaraewr y Chwaraewyr a Chwaraewr yr Hyfforddwr).

# Dathlu 50 mlynedd Hafan Deg



Trefnwyd dathliad pen-blwydd Cartref Hafandeg yn 50 oed gan Gyfeillion Hafandeg lle cafwyd amrywiaeth o stondiau, adloniant yn ogystal â the a choffi i bawb.  Fel cadeirydd y Cyfeillion ers 25 mlynedd hoffai Kistiah Ramaya ddiolch i bawb a gefnogodd, a gyfrannodd ac a gynorthwyodd er mwyn gwneud y dathliad yn llwyddiannus.



# Rhoddion i ddathlu'r Jiwbili



Stanley Evans, Cadeirydd ac Eric Williams, Clerc Cyngor Bro Pencarreg yn cyflwyno cwpanau i blant Ysgol Carreghirfaen. Yn y llun mae Dion Hughes a Alexi Jones y ddau blentyn ifancaf a Rupert Geddes a Naomi Davies, y ddau blentyn hynaf yn derbyn eu cwpanau. Hefyd yn y llun mae Aled Lloyd Evans, Pennaeth. Mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn i'r Cyngor Bro am ei rhodd o gwpanau i'r plant.



Maer a Maeres Kistiah a Carol Ramaya yn cyflwyno cwpanau i ddisgyblion Ysgol Ffynnonbedr ar ran Cyngor Tref Llambed i gofio am jiwbili'r Frenhines.




Yn ei cinio blynyddol cododd aelodau o Siambr Farchnad, Llambed £1,000 at Ward Merlin Ysbyty Glangwili. Yn y llun mae Geoff Lane, y Trysorydd presennol; Anwen Buten, Sister Ward Merlin yn derbyn y siec, Carol Davies, ysgrifenyddes; Derek Smith, cyn-gadeirydd yn cyflwyno y siec ar ran y Siambr Farchnad ynghyd â Dave Smith, y cyn-drysorydd.



Cynhaliwyd mabolgampau ysgol Llanwnnen prynhawn dydd Mercher (20/6/12).

Eleni, cafodd y plant fedalau arbennig gyda llun y fflam Olympaidd arnynt gan fod y gêmau Olympaidd yn Llundain bron â chyrraedd. Cafwyd tywydd hyfryd y prynhawn yma ac roedd pawb wedi mwynhau.

# Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan

**Ffynnonbedr**

Treuliodd disgyblion blwyddyn 6 gyfnod preswyl ym Mhentywyn yn ddiweddar a chael gyfle i ymgymryd â nifer o weithgareddau amrywiol megis canwio, dringo, abseilo . Diolch i'r staff am roi o'i hamser i roi'r profiad gwych yma i'r disgyblion. Derbyniodd pob disgybl dystysgrif am gwblhau'r gweithgareddau tra'r oeddent yno.

Diolch yn fawr i Mr Delme Harris a fu'n goruchwylio'r plant wrth groesi'r ffordd am ei waith a dymunwn yn dda iddo.

Llongyfarchiadau gwresog i Charlotte a Joseph Saunders ar gipio'r wobr gyntaf am ganu deuawd, i Aisvarya Sridar am ennill y gystadleuaeth i ddysgwyr ac i Rhys Bishop am gipio'r wobr gyntaf am ffotograffiaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd - gwych. Llongyfarchiadau i bawb a fu yno'n cystadlu a diolch i chi fel rhieni ac i'r staff am eich cefnogaeth.

Ymfalchiwn yn llwyddiant Tomos Jones ar gael ei ddewis i chwarae criced dros Gymru. Arbennig Tomos – tipyn o gamp.

Bu Maer a Maeres y dref sef Kistiah a Carol Ramaya yn cyflwyno cwpanau i'r disgyblion i ddathlu'r jiwbili ar ran Cyngor y Dref . Diolch i aelodau Cyngor Tref Llambed am eu cyfraniad.

Bu tîm pêl-droed bechgyn a merched yr ysgol yn cystadlu mewn twrnament yn Nhregaron yn ddiweddar gan wneud yn arbennig o dda. Llwyddodd y merched i gyrraedd y rownd gyn derfynol – da iawn chi ac fe ddaeth y bechgyn yn ail yn y gystadleuaeth – grêt. Diolch i Mrs Costello a Mr John am drefnu ac hyfforddi.



Mr Wyn yn cyflwyno tarian i gapteiniaid buddugol mabolgampau Cyfnod Sylfaen Ysgol Ffynnonbedr.



Cyng Ivor Williams yn cyflwyno tarian i fuddugwyr y mabolgampau yn Ysgol Ffynnonbedr sef Dewi. Hefyd yn y llun gweler Charlotte Saunders a Kyle Lloyd a dderbyniodd dariannau am Fabolgampwr a Mabolgampwraig y flwyddyn

Gwenodd yr haul ar ddiwrnod ein mabolgampau a chawsom ddiwrnod bendigedig o hwyl a sbri wrth gystadlu. Cafodd y disgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o rasys, naid uchel, naid hir, taflu pêl, clwydi a.y.b. Diolch i'r staff i gyd am eu gwaith ac yn arbennig i Mr John a Mr Roderick am drefnu. Ar ddiwedd y dydd tîm Dewi a ddaeth i'r brig, gyda Pedr yn ail a Steffan yn drydydd. Diolch i Gwawr Lewis a'r teulu am gyflwyno tariannau i Fabolgampwraig a Mabolgampwr y Flwyddyn a llongyfarchiadau i Charlotte Saunders a Kyle Lloyd am gipio'r gwobrau hynny am y ddau ddisgybl o flwyddyn 6 a oedd â'r mwyaf o bwyntiau. Diolch hefyd i Mesach a June Williams am gyfrannu medalau i fuddugwyr y Cyfnod Sylfaen .


Trefnodd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon nifer o stondinau yn ystod y dydd a diolch i'r aelodau a fu'n cynorthwyo.

Gwnaeth nifer o ddisgyblion blwyddyn 6 dderbyn tystysgrifau am gwblhau cwrs hyfforddiant beicio a diolch i'r Sir am drefnu. Yn ogystal bu Mr John a Mr Thomas yn cynnal hyfforddiant i ddisgyblion blwyddyn 6 ar sgiliau achub bywyd.

**Ysgol Campws Llambed**

Aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 9 a 10 ar daith i Stratford yn ddiweddar. Bu'r disgyblion yn ymweld â man geni Shakespeare a hefyd ei fedd, cyn gwylio perfformiad o 'Julius Caesar' yn 'Theatr Frenhinol Shakespeare'. Roedd y perfformiad yn wych, a phawb yn sicr wedi mwynhau.

Fe ailddechreuodd y Clwb Bonjour ar y 13eg o Fawrth ar ôl seibiant oherwydd yr Eisteddfod. Cafwyd sesiwn llawn hwyl o chwarae gemau a dysgu ieithoedd newydd ar yr un pryd. Bu Kamil Drozd a Caleb Davies, ill dau o Fl. 10, yn dysgu'r lliwiau i ni mewn Pwyleg. Yna, cafwyd gêm y goleuadau traffig gyda thri o'r lliwiau. Yna bu Max Zinn o Fl. 9 yn dysgu 'dde, chwith ac yn syth ymlaen' i ni mewn Almaeneg. Yna, cafwyd gêm o 'Simon says' gyda'r cyfarwyddiadau hyn. Gymaint oedd yr hwyl fel na chynhaliwyd cystadleuaeth ar y diwedd gan i'r amser ein trechu! Diolch o galon i bawb a fu'n helpu yn enwedig aelodau o 7G am eu help parod gyda'r desgiau! Ar y 27ain o Fawrth, cafwyd helfa drysor gyda'r enillydd yn ennill Wy Pasg. Roedd yn rhaid i'r disgyblion ddod o hyd i atebion i gwestiynau megis, faint o boblogaeth y byd sydd yn siarad Ffrangeg fel iaith gyntaf , faint o boblogaeth y byd sydd ddim yn medru'r Saesneg, a.y.b. Ar ôl chwilio brwdfrydig, Robert Jenkins, 7G, lwyddodd i ddod o hyd i'r atebion i gyd ac fe enillodd yr Wy Pasg. Cafodd Helen Cassiday a Holly Kelly, ill dwy o Fl. 7, wyau Pasg bach yn wobr. Bu Kamil Drozd a Caleb Davies (dau ieithydd abl a thalentog o Fl. 10) yn gyfrifol am y sesiwn ar y 24ain o Ebrill. Cyflwynwyd gwybodaeth ddiddorol dros ben am y Ffrangeg a siaredir yn Quebec, yng Nghanada. Gwelwyd bod geiriau gwahanol mewn Ffrangeg Canada i rai geiriau yn Ffrainc gan eu bod yn awyddus i osgoi dylanwad yr iaith Saesneg ar eu Ffrangeg, (megis 'courrielle' lle defnyddir 'e-mail' yn Ffrainc, 'magasiner' am 'faire du shopping' (siopa). Cyflwynodd Kamil wybodaeth am dafodiaith benodol o Bwyleg sydd wedi ei dylanwadu gan yr iaith Almaeneg a chafwyd gweld, a chlywed, Gweddi'r Arglwydd mewn Pwyleg yn y dafodiaith hon ganddo. Seiliwyd y gystadleuaeth ar y Quebecois ac fe gafwyd sawl enillydd felly fe ddewiswyd dau enw o het, sef Adrian Mazur o Fl. 7 a Collette Evans o Fl. 10. Llongyfarchiadau i'r ddau a chan mil o ddiolch eto i Caleb a Kamil am eu parodrwydd i helpu bob amser!




Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn athletau'r Sir. Bu nifer o'n disgyblion yn llwyddiannus iawn. Dyma'r canlyniadau :- Bechgyn blwyddyn 7: Clwydi 75m – Scott Janes (1af); Naid Uchel – Tom Sawyer (2il); Pwysau – Cerian Price (1af); Gwaywffon – Adrian Mazur (3ydd). Merched blwyddyn 7: 100m – Sally Rees (3ydd); 200m – Sara Jones (3ydd); 1500m – Seren Spooner (2il); Clwydi 70m – Lydia Chalder (3ydd); Naid hir – Sally Rees (3ydd). Bechgyn blwyddyn 8: 200m – Jack Guy (2il); 400m – Mathew Jenkins (1af); Naid uchel – Dion Davies (3ydd); Naid Hir – Dion Davies (2il); Gwaywffon – Cenc Kilic (1af); Disgen – Morgan Lewis (3ydd). Merched blwyddyn 8: 100m – Paloma Kalady (2il); 800m – Rhiannon Jevon (2il); Clwydi 75m – Hanna Evans (3ydd); Naid hir – Rhiannon Jevon (3ydd). Bechgyn blwyddyn 9: 100m – Szymek Parcheta (2il); 300m James Edwards (1af); 800m – Rhys Jones (3ydd); Clwydi 80m – Rhys Jones (2il); Naid uchel – Szymon Konwiak (2il); Disgen – Szymon Konwiak (2il). Merched blwyddyn 9: 100m – Naomi Chalder (3ydd); 800m – Caitlin Page (1af); 1500m – Caitlin Page (1af); Naid hir – Caitlin Page (3ydd); Pwysau – Ceri Davies (3ydd); Gwaywffon – Alis Butten (1af); Disgen – Ceri Davies (3ydd). Bechgyn blwyddyn 10 ac 11: 200m - Corey Lloyd (3ydd). Merched blwyddyn 10 ac 11: 200m – Carys Baker (3ydd); Clwydi 80m – Sasha Lloyd Bennett (2il); Naid uchel – Rhian Evans (1af); Naid hir – Rhian Evans (3ydd); Naid driphlyg – Rhian Evans (2il); Gwaywffon – Paulina Trybula (2il). Bechgyn blwyddyn 12 a 13: 100m – Kyle Ward (1af). Llongyfarchiadau mawr hefyd i ferched o flwyddyn 9 a 10 am ennill y NASUWT Cup, ac sydd drwyddo i'r rownd nesaf.

Cafwyd diwrnod ABCh llwyddiannus iawn i flwyddyn 7 yn ddiweddar. Diolch i'r Groes Goch, Banc Barclays ac i Gymdeithas Tai Hafan Caerfyrddin am eu mewnbwn a'u cymorth. Parti Adrodd: Bu criw o ddisgyblion brwdfrydig yn cystadlu yn yr Eisteddfod yn Eryri yn ystod yr wythnos hanner tymor. Hoffai Mrs Daniels eu diolch am eu hymrwymiad a'r holl waith caled wrth baratoi, ac er gwaethaf y glaw cafodd pawb gyfnod arbennig.

Llongyfarchiadau i 5 disgybl o'r Adran Dechnoleg am ennill Tystysgrif Aur CREST yn ddiweddar. Buodd Rhys Davies, Jac Evans, Alfie Smith, Lloyd Richards a Connor Bennett yn cydweithio â Dragon Machinery,

## Ysgol Campws Llanbedr P. S.

cwmni lleol o Bencader sy'n dylunio peiriannau/systemau i ofynion penodol y cwsmer. Yn ystod y flwyddyn buont yn cynrychioli'r ysgol yn Hwlffordd, Llanelli ac yna yn y Celtic Manor yng Nghasnewydd. Gosodwyd her ddiddorol i ni gan Mr David Wyatt, Rheolwr-Gyfarwyddwr Dragon Machinery. Natur y dasg eleni oedd ceisio adennill gwastraff copr sydd yn weddill ar ôl i wifrau trydanol cael eu malu a'u rhannu. Roedd e'n dasg anodd gan fod y disgyblion yn ceisio darganfod ffordd o adennill y copr wedi i brosesau confensiynol dynnu 98% ohono eisoes. Ceisio adennill y 2% o'r copr a oedd yn weddill o'r dwst oedd ar ôl oedd tasg y disgyblion. Er bod hyn yn ymddangos yn waith diddiolch, gyda phris copr wedi bod mor uchel â £5,000 y dunnell golyga hyn arbediad mawr i'r cwmni a llai o wastraff a straen ar yr amgylchedd. Bu'r disgyblion yn cystadlu yn erbyn 95 o ysgolion Cymru, gyda rhai ohonynt yn cydweithio gyda rhai o'r cwmnïau mwyaf yng Nghymru, er enghraifft Airbus UK, Corus a BAE Systems. Er na chipiwyd un o'r prif wobrau eleni bu'r disgyblion yn llwyddiannus drwy greu gwaith ymchwil sydd o werth i'r cwmni ac yn llawn haeddu'r tystysgrifau Aur CREST. Golyga hyn eu bod yn ennill 60 pwynt UCAC yr un a bydd hyn eu cynorthwyo ar eu llwybrau i brifysgolion a cholegau. Roedd y digwyddiad yn benllanw 6 mis o waith caled ac ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb gyfraniad Dragon Machinery. Mae'r peiriannau a gynhyrchir gan Dragon Machinery yn gallu troi gwastraff mawr caled yn ddarnau sy'n addas ar gyfer cael eu gwahanu a'u hailgylchu. Maent yn gallu trin cynnyrch megis papur, plastigion, paledau pren, byrddau cylched printiedig (PCB's) a metelau. Fel ysgol, rydym yn falch o'n cysylltiadau gyda Dragon Machinery. Rydym yn hynod o ddiolchgar i'r EESW ac i bob cwmni a fu'n cymryd rhan yn y fenter am eu gwaith caled ac am y cyfleoedd a grëwyd. Mae'n dda gweld digwyddiadau sy'n hyrwyddo peirianneg/dylunio yng Nghymru gan fod digon o dalent ar gael ar hyd a lled y wlad. Mae cystadleuaeth o'r math yn gyfle arbennig i amlygu'r talentau hyn ac yn rhoi mwy o hunanhyder i ddisgyblion. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Mr Bob Elward am ein cyflwyno i'r gystadleuaeth, Mr David Wyatt o gwmni Dragon Machinery am roi i ni'r cyfle arbennig hwn ac wrth gwrs i Mr Griffiths a Mr Hesketh am eu cefnogaeth a'u harweiniad.

Llongyfarchiadau pellach i Rhys Davies am ddod yn ail yn gystadleuaeth Celf a Chrefft yn Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012. Derbyniodd Rhys fedal a thystysgrif yn y categori cad/cam. Sychwr esgidiau chwaraeon oedd ei brosiect a oedd eisoes wedi ennill gwobr yng nghystadleuaeth arloesed CBAC yng Nghaerdydd.

Gŵyl Cemeg Salters: Llongyfarchiadau mawr i Ceri Picket, Ben Schoonman, Nikita Petry a Jessica Davies ar ennill 'Sialens Salters' ar ddydd Mercher, Mehefin y 13eg yn ystod 'Gŵyl Cemeg Salters' a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Rhan o'r Sefydliad Salters yw Gwyl Cemeg Salters. Nod yr ŵyl yw helpu hyrwyddo gwerthfawrogiad tuag at gemeg a phynciau gwyddoniaeth eraill. Cafodd y disgyblion gyfle i dreulio'r diwrnod yn adran IBERS y Brifysgol yn Aberystwyth yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Cemeg ymarferol. Er mwyn cwblhau'r sialens, bu'n rhaid dwyn swydd gwyddonydd fforensig am fore er mwyn ddatrys dirgelwch marwolaeth corff a ddarganfuwyd ar waun niwlog. Roedd rhaid ystyried yr holl wybodaeth o olygfa'r drosedd, ac unrhyw gliwiau oedd yn ymddangos yn yr adroddiad heddlu er mwyn cefnogi eu theori. Defnyddiodd y tîm dechnegau dadansoddol i adnabod amrywiaeth o gemegau hefyd. Ar ddiwedd yr ŵyl derbyniodd pob aelod o'r tîm wobrau hyfryd, gan gynnwys pecynnau 'molymod' ar gyfer yr ysgol.



Diwrnod Cenedlaethol 'CanSing' oedd hi ar y 21ain o Fehefin 2012. Menter yw hon sydd wedi ei hariannu gan y Llywodraeth er mwyn hybu Canu yng Nghymru. Treuliodd Aled Powys Williams, sy'n gweithio i'r fenter, fore yma yn yr ysgol yn gwneud gweithgareddau lleisiol gyda disgyblion o flwyddyn 8. Cafodd y disgyblion lawer o hwyl yn ei gwmni. Croesawu disgyblion newydd: Braf oedd cwrdd â bron i 110 disgybl newydd o flwyddyn 6 yn y bore rhagarweiniol. Edrychwn ymlaen at eu croesawu atom ym mis Medi.

## O'r Cynghorau Bro



**Cyngor Tref Llambed**

Y Maer: Kistiah Ramaya; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor Williams

Cyfarfu'r Cyngor ar 24 Mai 2012 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Maer. Offrymwyd gweddi gan Chris Thomas.

PLISMONA Roedd yr heddlu wedi cytuno trafod cau gorsaf yr heddlu yn y dref gyda Chyngor y Dref.

Bu achos i ddifrod troseddol gerllaw Siop Gwilym Price.

Bu achos o ddwyn o siop.

Arestiwyd person mewn achos yn ymwneud â chyffuriau.

Bu achosion o droseddau casineb.

Nodwyd y gellir tynnu sylw'r heddlu yn uniongyrchol at broblemau trwy alw 101.

BALCHDER PENTREFI Roedd CAVO wedi awgrymu y gellid cynnwys Ardal y Ffynnon o fewn y cynllun.

CADWYN Y MAER Mae'r darnau rhydd wedi'u cysylltu erbyn hyn.

DOSBARTHU CWPANAU Byddai'r maer yn dosbarthu cwpanau'r Jiwbilî yn ystod mis Mehefin gan gychwyn yn Ysgol Ffynnon Bedr ar 12 Mehefin.

LLAWLYFR Y DREF Mae'r llawlyfr presennol yn cael ei adolygu ac fe'i hargreffir gan Brifysgol y Drindod Dewi Sant.

BYSIAU ARRIVA Gwneir newidiadau i'r amserlen ar 3 Mehefin.

BWCABUS Byddai'r cyngor yn hysbysu Cyngor Sir Caerfyrddin eu bod yn anhapus â'r gwasanaeth ar ei ffurf bresennol.

TRAWSNEWID LLAMBED (Neuadd Fictoria) Hysbyswyd y Cyngor y byddai cynllun busnes yn cael ei baratoi i'w gyflwyno i'r cyngor sir. Byddai'n cynnwys uwchraddio a gwella cyfleusterau'r adeilad yn ei gyfanrwydd.

PARC YR ORSEDD Nodwyd bod ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cynyddu ers codi'r ffens newydd.

FFAIR FWYD LLAMBED Nodwyd y byddai'r cogydd Dudley yn bresennol yn y ffair.

**Cyngor Cymuned Llanwnnen**

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, Nos Fawrth 15 Mai 2012.

Cadeirydd: Chris Evans; Clerc: Eirian Williams.

Wedi i'r Cadeirydd groesawu pawb i'r cyfarfod, derbyniwyd cofnodion cyfarfod blynyddol 2011.

Cyflwynwyd y fantolen ariannol am y flwyddyn 2011-2012 gan y Clerc ac fe'i derbyniwyd gan yr aelodau.

Etholwyd Aeron Hughes yn Gadeirydd am y flwyddyn 2012-2013 ac Annwen Frost yn Is-Gadeirydd. Dymunodd y Chris Evans yn dda i'r Cadeirydd newydd am y flwyddyn sydd i ddod gan ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Ymatebodd Aeron Hughes drwy ddiolch i'r cyn-gadeirydd am ei ymroddiad dros gyfnod ei gadeiryddiaeth.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai o Gyngor Cymuned Llanwnnen yn union ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Cadeirydd : Cyng. Aeron Hughes; Clerc: Eirian Williams

Yn ystod y cyfarfod hwn, arwyddodd y cynghorwyr ddatganiad derbyn y swydd, hyn o ganlyniad i'r etholiadau a gynhaliwyd yn genedlaethol yn gynharach yn y mis. Roedd pob un o'r cynghorwyr wedi'u dychwelyd yn ddiwrthwynebiad felly ni fu etholiad ar gyfer Cyngor Cymuned Llanwnnen y tro hwn.

Croesawyd Euros Davies i'w gyfarfod cyntaf ar ôl iddo gael ei ethol yn Gynghorwr Sir dros yr ardal. Daeth hyn i fod o ganlyniad i ymddeoliad y Cyng. Haydn Richards, ac mewn cyfarfod blaenorol, cafwyd cyfle i ddiolch o galon iddo ef am ei holl waith diflino dros y gymuned. Dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad o'r Cyngor Sir.

Nodwyd fod mygiau dathlu Jiwbilî Deiamwnt y Frenhines wedi eu harchebu ac y byddent yn barod i'w dosbarthu i bob plentyn ar gofrestr Ysgol Gymnradd Llanwnnen yn gynnar ym mis Mehefin.

Codwyd mater glendid a thaclusrwydd cyffredinol y pentref a sicrhawyd y Cynghorwyr fod dau berson lleol a gyflogwyd gan y Cyngor Cymuned yn dal i fynd o gwmpas y pentref yn gyson i godi sbwriel. Hefyd fod yr arosfan bws yn mynd i gael ei dacluso ar frys.

# MiS y PaPUr NewYdD

**Colofn Dylan Iorwerth**

**Pan ddaw'r llifogydd ...**

Does yna ddim llawer o olygfeydd mwy truenus na chelfi wedi eu pentyrru y tu allan i dŷ ar ôl llifogydd. Bywydau sydd yno mewn gwirionedd.

Felly'r oedd hi yng ngogledd y sir ddechrau'r mis a glaw sydyn, trwm, yn troi'n anhrefn ac yn drychineb i lawer o bobol.

Erbyn y nos Sul, roedd y soffas a'r gwelyau llaith ar y palmentydd y tu allan i ddegau o dai ond y colledion gwirioneddol o'r golwg – y lluniau, y trysorau teuluol a hyd yn oed yr atgofion nad oes modd eu prynu eto.

Roedd y golygfeydd digalon yn ein hatgoffa ni o ddau beth – nad oes modd gwrthsefyll pŵer natur yn y pen draw, a'n gwiriondeb ninnau yn codi adeiladau newydd ar dir lle mae peryg o lifogydd.

Erstalwm, roedd yna reswm da tros adeiladu'n agos at afon. Dyna'r ynni oedd yn gyrru peiriannau ac yn troi olwynion. Roedd yn gysur hefyd bod yn agos at ddŵr ar gyfer ymolchi a golchi a phob math o dasgau eraill.

Roedd yna rai tai wedyn mewn llefydd sydd fel rheol yn gwbl saff ond fod cyfuniad o ffactorau wedi taro gyda'i gilydd i greu sefyllfa anghyffredin. Wyddon ni ddim yn union pam fod pethau cynddrwg, ond mae'n amlwg nad oedd neb wedi rhagweld y fath ryferthwy o ddŵr.

Ryden ni wedi gweld pethau tebyg ar raddfa lai yn Llanbed a chenlli sydyn o law'n ormod i'r draeniau a'r cwterydd. Heb wario'n afresymol, mae digwyddiadau o'r fath bron yn amhosib i'w hatal na pharatoi amdanyn nhw.

Stori arall oedd hi yn ardal Llanbadarn, Aberystwyth, lle mae tref fechan newydd wedi cael ei chodi ar lawr y dyffryn yn ystod y blynyddoedd diwetha'. Yn union fel y Co-op yn Llanbed lle byddai cychod yn aml o fwy o ddefnydd yn y maes parcio na throlis cyffredin.

Yn ôl yr arbenigwyr, mae adeiladu yn y fath lefydd ynddo'i hun yn gwaethygu pethau. Mae yna fwy o darmac a brics a choncrid a llai o le i afonydd ymestyn yn naturiol. O ganlyniad, mae'r problemau'n waeth, yn aml mewn llefydd eraill.

Mae rhai yn gweld stori'r ddynoliaeth gyfan yn ymgais ar ran dyn i reoli byd natur a harneisio'i  grymoedd hi. Bellach yng ngogledd Ceredigion, does dim angen sôn am na tswnami na daeargryn na chorwynt i ddangos pa mor seithug ydi hynny.

Os ydi'r amgylcheddwyr yn iawn, wrth gwrs – ac mae pob lle i gredu eu bod nhw – yr eironi ydi mai ein gweithredoedd ni ein hunain sydd ar hyn o bryd yn gwneud natur yn fwy peryglus fyth. Y disgwyl ydi y bydd llawer rhagor o dywydd eithafol yn dod ar ein gwarthaf ninnau.

Erbyn hyn, ryden ni wedi dechrau deall nad mater o droi gorllewin Cymru yn India'r Gorllewin ydi ystyr newid hinsawdd. Ac nid haul parhaus ydi canlyniad cynhesu byd-eang. Mae'r effeithiau'n llawer mwy cymhleth.

Ar ôl mis Mawrth anarferol o sych a chynnes ac Ebrill, Mai a Mehefin dychrynllyd, mae'r hen syniadau am batrwm y tywydd wedi mynd yn llwyr. Ac mi fydd rhaid i ninnau ddysgu addasu i'r eithafion newydd.

Gweithio efo natur sydd raid. Peidio â chodi tai a siopau ar dir lle gall afon orlifo a pheidio â chaethiwo'r afonydd rhwng erwau o sment ... a chofio fod gan y ddaear ei ffordd ei hun o ddelio efo'i grymoedd.

O gofio am drafferthion Eisteddfod yr Urdd eleni, roedd yna ddameg fach syml i'w dysgu pan ddaeth prifwyl y plant i Lanbed yn 1999. Mi gawson ninnau dywydd dychrynllyd tua diwedd yr wythnos ond heb ormod o broblemau traffig.

Os ydw i'n cofio'n iawn, roedd doethion lleol y pwyllgor trafnidiaeth wedi gadael i'r borfa dyfu'n hir ar y cae lle'r oedd y parcio. Pan ddaeth y glaw, roedd hwnnw'n help i lyncu'r dŵr ac yn help i'r cerbydau symud.

Natur yn delio â natur.




Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion


# Yn y Gegin gyda Gareth

**Haf Braf yn y gegin.**

Gyda'r dyddiau a'r wythnosau'n cynhesu, gobeithio cyn hir, y bydd hynny'n dod â blas hafaidd i'r gegin, gyda chyfle i fwyta prydiau al fresco yn yr ardd, a chael ffrindiau a'r teulu draw am swper arbrofol yn yr ardd.

Prydiau sydd yn addas ar gyfer picnic, a bydd y gegin rwy'n siwr yn ganolbwynt i'r holl gyffro. Bydd angen syniadau a rysetiau newydd arnoch, gobeithio y bydd y casgliad canlynol yn help i chi. Mwynhewch flas dyddiau hirddydd Haf.

Gobeithio cyfarfod rhai o ddarllenwyr 'Clonc' wrth i mi deithio Cymru yn ymweld â ffeiriau bwyd.

Pob hwyl,
*Gareth*

**'Lemonêd Clonc'**



Cynhwysion
- 2 lemwn wedi'u hanneri
- 2 leim wedi'u hanneri
- 100 gm siwgwr caster
- Ychydig o ddail 'basil'
- Digon o iâ.

Dull
1. Gwasgwch y sudd o'r ffrwythau ac hidlwch i jwg fawr. Ychwanegwch y siwgwr a throwch y cyfan nes bod y siwgwr wedi toddi
2. Torrwch  y croen yn ddarnau ac ychwanegwch y dail basil a digonedd o iâ. Llenwch y jwg gyda dŵr nes bod y blas yn dderbyniol.

**Tarten Pesto a Thomato**

Cynhwysion
- Un dalen o 'puff pastry' wedi'i rolio.
- 1 ŵy wedi'i guro
- 2 – 3 llond llwy fwrdd o pesto
- 100 gm o domatos ceirios bach wedi'u hanneri
- Ychydig ddail rosemary wedi'u torri'n fân.
- 3 shalotsyn wedi'u torri'n fân
- 2 llond llwy fwrdd o gaws parmesan wedi'i gratio
- Ychydig o olew'r olewydd.



Dull
1. Gosodwch y toes ar hambwrdd pobi a chrafwch fframwaith 1cm o'i amgylch.
2. Brwsiwch  y fframwaith ag ŵy; gwasgarwch y pesto dros y toes ac yna'r tomatos.
3. Sgeintiwch gyda'r rosemary, shibwns a'r caws.
4. Pobwch am 20 munud ar wres 220ºC. 450ºF. Nwy 7. yna sglein o olew cyn torri'n ddarnau.


**Salad 'Ham Parma'**



Cynhwysion
- 2 llond llwy fwrdd o olew'r olewydd
- 2 ewyn o arlleg wedi i torri'n ddarnau
- 1 tun 100gm o Chickpeas
- 4 shibwns wedi'u torri'n ddarnau
- 8 sleisen o ham parma
- Halen a phupur

Dull
1. Cynheswch yr olew mewn padell ffrio ac ychwanegwch y garlleg a choginiwch am tua 2 funud, yna'r Chickpeas a'r shibwns, halen a phupur. Cadwch yn gynnes.
2. Gosodwch yr ham ar blat gweini drwy ei rychu'n donnau, yna y salad ffa a'r olew'n gynnes drosto. Gweinwch gyda bara.

**Treiffl Ffrwythau'r Haf.**



Cynhwysion
- 200 gm o fefus wedi'u cwarteri
- 600 gm o ffrwythau cymysg (llus, mafon a mwyar)
- 3 llond llwy fwrdd o siwgwr caster
- 100gm o fisgedi amaretti
- 600ml o gwstard ffres o ansawdd da mewn pot.

Dull

Rhowch y siwgwr a'r ffrwythau mewn sosban. Dewch i'r berw,  mudferwch am tua 4 munud, yna rhowch mewn bowlen. Codwch llond llwy fwrdd o ffrwythau i bowlen arall. Malwch y bisgedi a chadwch llond llwy fwrdd ar wahân, a rhoi'r gweddill mewn powlen treiffl.

Rhowch hanner y cwstard drosto, yna hanner y  compote ffrwythau; rhagor o gwstard a ffrwythau, yna gorffen â'r cwstard gan addurno'r cyfan gyda'r llond llwy fwrdd o'r bisgedi a'r ffrwythau. Mwynhewch.

# Ffarmers

**Diolch**

Dymuna teuluoedd Llwynhywel, Llanymddyfri a Tanyresger, Ffarmers ddatgan eu gwerthfawrogiad am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynwyd iddynt yn eu colled a hiraeth o golli Mair. Diolch hefyd am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at Ymchwil Cancr UK a Gofal Cancr Marie Curie.

**Gŵyl y Gwnawyn**

Cynhaliwyd Gŵyl y Gwanwyn yn y pentref ar y 26ain o Fai i ddathlu bywyd cymunedol yr ardal wledig yma. Cafwyd diwrnod llawn o weithgareddau, gyda thyrfa fawr wedi ymuno â ni am y dydd. Llywydd y dydd oedd Mrs Ray Davies, Peronne, aelod ffyddlon a gweithgar o Gyngor y Neuadd, a chyn-lywydd y Neuadd, a chafwyd ganddi araith arbennig wrth iddi agor y digwyddiad yn swyddogol.



Cafwyd arddangosfeydd o grefftau lleol, ynghyd ag arddangosiadau gan nifer o grefftwyr o sgiliau cefn gwlad. 'Roedd yna arddangosfa o'r amrywiol fridiau defaid sydd i'w gweld yn yr ardal, a daeth yna gasgliad arbennig o hen dractorau ynghyd, gydag un hen lori, a beic modur i ychwnegu at yr olygfa. Daeth Dawnswyr Penrhyd a Band Arian Rhydaman i'n diddori yn ystod y prynhawn, ac 'roedd yna naws arbennig wrth i bawb gymdeithasu yn yr haul bendigedig.



Trefnwyd mabolgampau i'r plant yn ystod y prynhawn, a braf oedd gweld cymaint o blant yn bresennol i fwynhau'r gweithgareddau. 'Roedd lluniaeth a barbiciw wedi eu trefnu ar gyfer yr ymwelwyr. Yn yr hwyr, ymunodd 'Jac y Do' a ni i'n diddori, a chafwyd 'Twmpath Dawns' a llawer o hwyl yn eu cwmni – a chan fod y tywydd mor braf, cynhaliwyd y cyfan yn yr awyr agored.

Profodd y digwyddiad yn gyfle gwych i David Lewis, Erwhen i lansio ei lyfr ar hanes yr ardal – 'Family Hitories and Community Life in North Carmarthenshire.'

Dymuna Cyngor y Neuadd ddiolch i bawb a wnaeth gyfrannu tuag at lwyddiant y diwrnod, gan obeithio fod yr ymwelwyr oll wedi mwynhau eu hunain. 'Roedd hwn yn arbrawf newydd i ni yn Ffarmers, a da oedd gweld gymaint o wynebau newydd wedi ymuno â ni. Diolch arbennig am y gefnogaeth ariannol a dderbyniwyd o dan Echel 4 y Cynllun Datblygu Gwledig (Cynllun Grant Dathlu Diwylliant) a reolir gan Menter Bro Dinefwr ar ran Cyngor Sir Gaerdyrddin. Mae Cyngor y Neuadd yn ystyried cynnal digwyddiad arall eto flwyddyn nesaf, ond ar thema wahanol.





**Y Carnifal a Mabolgampau**

Cynhelir y Carnifal a Mabolgampau blynyddol yn y pentref ar yr 11eg o Awst. Llywyddion y dydd fydd Eurig a Wendy Jones, Erwau.

# Clwb Clonc

## Gorffennaf 2012

**£50 rhif 188 :**
Meinir Green,
Nantgwyn, Heol Llanfair, Llambed.
**£50 rhif 492 :**
Lyn Young,
Tanyfron, Heol Llanfair, Llambed.
**£25 rhif 328 :**
Ceris Jones,
Hafod-yr-Wyn, Gorsgoch.
**£25 rhif 2 :**
Mrs Linda Bashford,
Cwmderi, Redhill, Surrey.
**£20 rhif 48 :**
Lyn Davies,
Glanafon, Felinfach.
**£20 rhif 114 :**
Eurwyn Davies,
47 Heol-y-Gaer, Llanybydder.
**£15 rhif 304 :**
Jack Jones,
Rhandir, Cwmsychpant.
**£15 rhif 122 :**
Mrs Bet Davies,
Glynteg, Llanybydder.
**£10 rhif 97 :**
Aneurin Davies,
Gelli Aur, Rhydybont, Llanybydder.
**£10 rhif 42 :**
Llyr Davies,
Yr Encil, Cysgod y Coed, Cwmann.
**£10 rhif 461 :**
Mrs Mair Williams,
Awelfa, New Inn, Pencader.
**£10 rhif 243 :**
Mrs Ceinwen Jenkins,
Ceulan, Heol Maestir, Llambed.
**£10 rhif 436 :**
Mrs Eirlys Thomas,
Awelfa, Llanybydder.
**£10 rhif 380 :**
Mrs Elma Phillips,
Llysgwyn, Cellan, Llambed.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

**Mae CLONC wastad yn chwilio am bobl newydd i helpu.**

*Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu dynnu lluniau?*
*Hoffech chi weinyddu'r wefan?*
*Neu beth am waith dylunio?*
*Rydym yn chwilio am swyddogion hysbysebu a swyddogion gwerthiant.*
*Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno â'r criw ffyddlon sy'n plygu Clonc?*

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes er mwyn cynnig eich gwasanaeth os gwelwch yn dda.


Carpedi
Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel, Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones
Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
ADVE
ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR
33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 🖷 01570 423244

# Llanybydder

**Noson Goffi**

Cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus yn Festri Aberduar ar 11eg o Fai dan nawdd Pwyllgor buddiannau'r Henoed. Agorwyd y noson trwy anerchiad pwrpasol gan Mr Aled Thomas, Brynmair. Cyfrannodd yn hael iawn at y coffrau. I ddiddanu'r gynulleidfa cafwyd eitemau gan blant Ysgol Llanybydder a Chôr Lleisiau'r Werin. Mawr yw gwerthfawrogiad y pwyllgor i chi gyd. Arwerthwyd y nwyddau o'r stondinau yn gyflym.

Derbyniwyd llawer o wobrau i'r raffl. Y rhai a fu'n ;llwyddiannus i dderbyn y gwobrau oedd:

1. Griffiths, Glandulas Isaf. 2. Arwyn Jacob. 3. 480014. 4. Fishers, Cellan. 5. John Davies, Bryncastell.6. Garry Rees. 7. Hughes 481014. 8. Sally Evans, Bryn-yr-eglwys. 9. Stan Evans.

Dymuniad y pwyllgor yw i ddiolch i bawb am bob cyfraniad ac i bawb a fu'n gweithio i sicrhau llwyddiant y noson.

Bydd y pwyllgor nesaf ar Hydref 2il yn yr ysgol am 7.00y.h. Croeso cynnes i aelodau newydd.

**Hanes Côr Lleisiau'r Werin,**

Yn ymarfer nos Iau, 31ain Mai, dymunwyd yn dda i Margaret, Crug-y-wheel, gan ei bod hi yn mynd ar daith allan i Borneo. Gobeithiwn y cewch chi amser arbennig, ac edrychwn ymlaen at glywed yr hanes ar ôl i chi gyrraedd nôl!

Nos Iau, 14eg Mai, rhoddwyd llongyfachiadau i Glwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog am gynnal Rali Sirol mor llwyddiannus. Roedd sawl aelod o'r Côr yn rhan o'r Rali, rhai yn Stiwardio, beirniadu a gwneud 'button holes' ar gyfer y swyddogion i gyd!

Fel côr, rydym yn falch iawn taw ein harweinyddes ni, Elonwy Davies, oedd Llywydd y dydd. Braf oedd clywed Elonwy yn rhannu ei hanes hi gyda CFFI Llanwenog wrth iddi gyflwyno araith o lwyfan y Rali. Roedd clawr Cwysi, sef llyfr sy'n olrain hanes bob clwb CFFI sydd yn y Sir, wedi ei greu gan Sioned Glantrenfach. Da iawn ti Sioned, roedd hwn yn glawr arbennig iawn!

Yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni, roedd Elonwy yn rhan o seremoni a oedd yn rhoi medal i berson sydd wedi gweithio'n galed dros yr Urdd. Enillodd Elonwy y fedal ychydig o flynyddoedd yn ôl, am yr holl waith mae'n ei wneud bob blwyddyn i ddysgu plant yn barod i Eisteddfod yr Urdd. Eleni roedd 20 mlynedd ers i'r fedal gyntaf gael ei rhoi, ac roedd enillwyr y fedal dros y blynyddoedd wedi dod at ei giydd i fod yn rhan o'r seremoni eleni.

Llongyfarchiadau i blant Ysgol Talgarreg ac Ysgol Cwrtnewydd, ac i Aelwyd Pantycelyn am eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Braf oedd cael Nans nôl gyda ni yn yr ymarfer yma. Mae'r Altos yn falch iawn cael Nans nôl!! Rydym yn falch eich bod chi yn gwella'n dda wedi eich llawdriniaeth.

Yn ymarfer nos Iau, 21ain Mehefin, roedd newyddion hyfryd wedi cyrraedd, sef fod Angharad a John wedi cael merch fach yn ystod y dydd. Dyma wyres fach newydd i Edith a'i gŵr Kevin. Llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu.

Rhoddwyd dymuniadau gorau i Delyth, merch Bet, a oedd wedi cael triniaeth ar ei llaw yn ystod yr wythnos. Gobeithiwn y byddwch yn gwella'n glou.

**Eglwys Sant Pedr Llanybydder**

Dydd Sul, 27ain Mai, aeth bws a llond car o aelodau Eglwysi Llanwnnen, Llanwenog a Llanybydder ar daith i Eglwys Gadeiriol Ty Ddewi.

Gwnaethom ymuno yng Ngwasanaeth y Cymun, lle roedd côr y Gadeirlan yn canu'r Cymun. Ar ôl y gwasanaeth cawsom gyfle i fynd o gwmpas y Gadeirlan, a gwnaeth y Tra-barchedig Jonathan Lean dangos Y Greirfa i ni, a oedd wedi cael ei adnewyddu yn ddiweddar. Diolch i'r Parchedig Suzy Bale am drefnu'r daith, edrychwn ymlaen at daith y flwyddyn nesaf!

Mae'r blodau sydd yn yr Eglwys mis yma, wedi ei rhoi gan Jean er cof am ei gŵr Peter.

Diolch i chi Jean am roi y blodau, ac i Diana am drefnu'r blodau bob mis. Cofiwn am Peter yn ein gweddïau.

Cynhaliwyd Rali CFFI Ceredigion gan Glwb Llanwenog eleni ar ddydd Sadwrn 2ail o Fehefin ar fferm Llechwedd, Llanwenog. Roedd Iona, aelod o Eglwys Llanybydder yn un o ysgrifenyddion y Rali, ac roedd rhai o aelodau'r Eglwys yn Beirniadu ac yn Stiwardio. Llongyfarchiadau i Iona ac i Glwb Llanwenog am drefnu a chynnal Rali mor llwyddiannus.

Dydd Sul, 10fed Mehefin cynhaliwyd Gŵyl Gorawl Eglwysi ein hardal ni, yn Eglwys Sant Luc, Llanllwni. Yn y prynhawn cynhaliwyd Gymanfa'r plant o dan arweiniad y Parchedig Suzy Bale.

Diolch i aelodau Eglwys Llanybydder am gyfranu bwyd a diod tuag at y te oedd yn dilyn Gymanfa'r plant.

Roedd Gymanfa'r oedolion yn y nos, o dan arweiniad Elonwy Davies, Llanybydder, diolch iddi am arwain y gymanfa ar fyr rybudd.

Dydd Sul, 10fed Mehefin, roedd Gwasanaeth y Gair wedi ei ysgrifennu a'i drefnu gan Kay.

Testun y gwasanaeth oedd dathlu penblwydd y gwasanaeth ffôn '999' yn 75 mlwydd oed, ac hefyd bobl sydd yn ein helpu ni bob dydd.

Dechreuodd Kay y cwrdd drwy sôn am broblemau y mae pobl sy'n ffonio 999 i ofyn am help am y rhesymau anghywir yn gallu achosi. Eglurodd Lewis fod 14 'hoax call' fel hyn yn cael ei gwneud pob dydd yng Nghymru, a taw y Frigad Dân sydd yn cael y mwyafrif o'r galwadau hyn.

Dywedodd Avril fod y bobl sy'n gweithio i'r gwasanaethau brys yn achub bywydau miloedd o bobl bob blwyddyn. Wedyn gwnaeth Sasha ac Elain adrodd penillion bach doniol yn esgus bod yn bobl sy'n helpu ni bob dydd, bobl fel; garddwyr, postmon, Doctor a Deintydd. Gwnaeth y Ficer sôn am enghreifftiau o bobl sy'n helpu yn y Beibl, a gwnaeth Lewis ac Avril ddarllen un enghraifft, sef darlleniad o Mathew 25, 35-40.

I orffen y gwasanaeth, gwnaeth Rhian, Natasha a'r Ficer weddïo dros y bobl sydd yn ein helpu ni.

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at y gwasanaeth arbennig hwn.

Llongyfarchiadau i John ac Angharad Jones ar enedigaeth merch fach ar yr 21ain o Fehefin. Wyres fach newydd i Dennis a Dot Bontnewydd!

Byddwn yn cynnal taith gerdded flynyddol yr Eglwys nos Wener 17eg, Awst- os ydych am ymuno gyda ni, ffoniwch Kay am ffurflen noddi: 480 850.

Cofiwn at Mrs Beaumont sydd nawr wedi ymgartrefu yng nghartref Awel Deg, Llandysul.

Dymunwn wellhad buan i bawb sy'n anhwylus a'n cydymdeimlad â'r rhai sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

**Sioe Arddwriaethol Llanybydder**

Cynhelir Sioe Garddwriaethol Llanybydder dydd Sadwrn, Awst y 4ydd, ar safle Marchnad Evans Bros. Bydd yno stondinau Cynnyrch, Crefft ac Elusennol. Y stondinau i'w gosod o 8 o'r gloch y bore, y gwerthiant i ddechrau am 10 yb. Gwerthiant cist car am 11.45yb.

Trefnir Helfa Drysor arddwriaethol o fewn cyffuniau'r sioe i ddechrau am 10yb, a bydd 'Worzel Gummidge ac Anti Sally' yno.

Ceir Ffurflen gystadlu yn y Rhaglen swyddogol.

Man arddangos ar agor o 8-11.45 yb; ar gau tra bo'r beirniaid wrth eu gwaith12-2yp. Ar agor i'r cyhoedd am 2 o'r gloch. Cyhoeddir enwau'r enillwyr a chyflwyno'r gwobrau am 3 o'r gloch.

Bydd mwyfrif y sioe dan do. Os am ddod â stondin, ffoniwch Sheila 01570 481554, neu Pam 01570 480209.

**Diolch**

Dymuna Merfyn, 10 Bro Rhydybont ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau, anrhegion, galwadau ffôn a'r ymweliadau a dderbyniodd o ganlyniad i'w lawdriniaeth ar ei benglin yn Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn!

Hefyd, dymuna Alun ac Ann, Gwarduar ddiolch am y cyfarchion a'r anrhegion a gawsant ar ddathlu priodas Aur. Diolch o galon.

**Bedyddwyr**

Cynhaliwyd oedfa arbennig iawn yn Aberduar ar 30 Mai wedi ei threfnu gan Fudiad y Chwiorydd Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion. Croesawyd pawb yn gynnes gan Rosemary Morgan ysgrifennydd y pwyllgor a braf oedd gweld cynulliad teilwng wedi dod ynghyd o bell ac agos ar brynhawn hyfryd o Wanwyn. Roedd yr oedfa yn seiliedig ar Brosiect Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru a luniwyd gan y Parchedigion Mary Davies, Judith Morris a Jill Tomos sy'n gwasanaethu yn y Gymanfa. Mae'r oedfaon, sydd yn cynnwys darlleniadau, emynau, gweddiau, anerchiadau, myfyrdodau a sgyrsiau i blant yn seiliedig ar chwech o wragedd llai cyfarwydd y Beibl sef Abigail, Efa a'r Wraig Weddw o'r hen Destament ynghyd â Dorcas, Joanna a Rhoda o'r Testament Newydd. Bydd y deunydd hwn yn adnodd defnyddiol iawn ar gyfer ein heglwysi.

Cymerwyd rhan gan y Parchedigion Mary Davies, Judith Morris a Jill Tomos ynghyd â chwiorydd o bob cylch yn y Gymanfa gyda Janet yn cynrychioli yr ardal hon. Trwy gyfrwng sgyrsiau hynod ddiddorol datgelwyd gwirioneddau mawr mewn ffordd mor ffres ac ysgafn.

Talodd Rosemary deyrnged uchel i Mary, Judith a Jill am eu gwaith amhrisiadwy ac i bawb oedd wedi cymryd rhan gan wneud hynny yn ddeallus a graenus mewn oedfa mor unigryw. Diolchodd hefyd i swyddogion Aberduar am ddefnydd o'r capel, i chwiorydd Aberduar, Bethel Silian, Brynhafod Gorsgoch, Caersalem, Noddfa a Seion Cwrtnewydd am eu hymateb ardderchog i gais y pwyllgor i baratoi lluniaeth ac i Janet am drefnu. Yn olaf ond nid y lleiaf talodd ei gwerthfawrogiad i Brenda am gyfeilio ac i bawb am eu cefnogaeth.

**Priodas Arian**

Llongyfarchiadau i Anthony a Meryl Davies, Maes-y-Barcud ar ddathlu eu Priodas Arian.

# Carnifal Llanybydder

Cychwynwyd wythnos carnifal Llanybydder gyda gêmau potes a phedwar tîm yn cymryd rhan. Y tîm buddugol oedd y Tanners.



Un o'r gêmau



Aelodau'r pedwar tîm



Yn y llun mae Sonia ac Arwel Morgan yn cyflwyno'r cwpan i'r tîm buddugol sef Andrew Williams, Stewart Brown, Gareth Ebenezer a David Williams. Ar y dde mae Emyr Williams un o drefnwyr y gêmau.


**HYSBYSEBU YN CLONC**

*"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."*
Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.
£10.00 am floc bach.
£40.00 am chwarter tudalen.
£60.00 am flwyddyn o flociau bach.
Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:
01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk


# Bag Papurau Bro

**am ddim** i aelodau newydd Clwb Clonc sy'n talu trwy archeb banc (tra pery'r cyflenwad).



# CEFNOGI CLONC 2012

Y ffordd orau a'r mwyaf ymarferol o gefnogi'ch papur bro yw trwy ymuno â Chlwb CLONC. Rydym yn ddibynnol iawn ar yr incwm. Diolch am gefnogi.

# CLWB CLONC

Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn talu drwy archeb banc. Mae'n hawdd. Llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr Ysgrifenyddes er mwyn hawlio'ch bag siopa newydd am ddim.

**Archeb Banc yn unig**

At Rheolwr Banc y / Manager of . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Cangen / Branch . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .................

Wedi derbyn yr archeb hon, telwch i FANC NATWEST Llambed 53 61 42 CLWB CLONC 03451526 y swm o £5, £10, £15, £20* NAWR ac yna ar y dydd cyntaf o Orffennaf bob blwyddyn nes y rhybuddiaf chi ymhellach, telwch y swm o £5, £10, £15, £20

Enw llawn / Name . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Cyfeiriad Llawn / Address . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Rhif y cyfrif / Account no . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Dyddiad / Date . . . ./. . ./2012

Arwyddwyd / Signed . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

** Rhowch gylch o amgylch y swm y dymunwch roi**

neu...

os am dalu ag arian parod neu siec, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr ysgrifenyddes cyn diwedd mis Gorffennaf os gwelwch yn dda.

Amgaeaf tâl o £5, £10, £15 neu fwy.
**** Arian / Siec yn daliadwy i 'Glwb Clonc' ****

Enw: . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Cyfeiriad: . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

## Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
**Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc**
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | | 1 | | | | | | |
| | 4 | | 8 | | 2 | | 5 | |
| 6 | | | | | | 8 | | |
| | | 4 | | 2 | 6 | | | 8 |
| | | 9 | | 3 | | 2 | | |
| 2 | | | 1 | 4 | | 6 | | |
| | | 5 | | | | | | 1 |
| | 9 | | 5 | | 1 | | 2 | |
| | | | | | | 5 | | 9 |

**Atebion Swdocw mis Mehefin:**

Llongyfarchiadau i Llongyfarchiadau i: **Jean Morgan, Bryn-yr Eglwys, Llanbed,** a diolch i bawb arall am gystadlu: Letty Williams, Meinigwynion, Gorsgoch; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder; Lois Williams, Bronallt, Llangadog; Delyth Edwards, Deluan, Llansawel; Bethan Rees, Pantygogle, Rhydowen; Glenys Davies, Gelli Aur, Llanybydder; Rob Phillips, Llety Clyd, Llanbed; Betty Prydderch, Tyngrug, Llanllwni a Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | 2 | 6 | 4 | 9 | 3 | 7 | 1 | 8 |
| 8 | 7 | 1 | 5 | 6 | 2 | 3 | 9 | 4 |
| 4 | 3 | 9 | 1 | 7 | 8 | 6 | 2 | 5 |
| 7 | 9 | 3 | 2 | 8 | 4 | 1 | 5 | 6 |
| 2 | 1 | 4 | 6 | 3 | 5 | 8 | 7 | 9 |
| 6 | 5 | 8 | 7 | 1 | 9 | 4 | 3 | 2 |
| 3 | 4 | 5 | 8 | 2 | 1 | 9 | 6 | 7 |
| 1 | 6 | 2 | 9 | 4 | 7 | 5 | 8 | 3 |
| 9 | 8 | 7 | 3 | 5 | 6 | 2 | 4 | 1 |

# Llanwnnen



Caderirydd C.Ff.I. Ceredigion 2011 – 2012 - Manon Richards, Lowtre a chyn-aelod gweithgar o G.Ff.I. Llanwenog.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Rhodri, Delyn Aur, Llanwnnen ar dderbyn gradd anrhydedd mewn Meddygaeth o Brifysgol Lancastr ac sydd bellach yn Dr Rhodri Bowen MBChB (Anrh).

Pob lwc gyda dy swydd gyntaf yn Ysbyty Gyffredinol Lancastr.

**Gwellhad buan**

Adferiad buan i Mary Richards, Lowtre a Luned Mair, Pen-y-nant yn dilyn derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar a hefyd Dai John Jones, 3 Bro Grannell sydd yn yr yr ysbyty ar hyn o bryd.

**Pwyllgor Lles**

Bydd trip blynyddol yn mynd ar ddydd Mercher, Medi 5ed i Sain Ffagan. [Os bydd y tywydd yn anffafriol byddwn yn mynd i McArthur Glen]. Bydd y bws yn gadael Llambed am 8:15y.b. a Llanwnnen am 8:30y.b. Enwau i Haydn Richards 480279, Gwen Davies, 481152 neu Ann Hughes 422654. Croeso cynnes i bawb.

**Diolch**

Dymuna Llew a Catrin, Castell Du ddiolch o waelod calon i bawb am y llu o gardiau, anrhegion a rhoddion ar achlysur ei priodas yn ddiweddar. Gwerthfawrogir hyn yn fawr iawn.

**Wyres fach**

Pob dymuniad da a llongyfarchiadau i Edith a Kevin Williams, Derwen Deg ar gael wyres fach newydd – merch fach i'w merch Angharad a'i gŵr John yn Llanybydder.

**Ysgol Llanwnnen**

Bu disgyblion yr ysgol wrth eu boddau ym cymryd rhan yn chwaraeon potes yr Urdd yn Llanybydder. Gwnaeth y ddau dîm yn arbennig o dda a diolch i Lanybydder am drefnu.

Aeth criw hefyd i gefnogi chwaraeon potes ysgol Llanllwni a chael amser gwych gyda'r 'decathalon' a drefnwyd. Diolch i Ysgol Llanllwni am drefnu ac i'r rheini am hebrwng y plant yno.



Aeth dosbarth Mrs Llwyd i Gei Newydd ar daith Daearyddiaeth i gymharu pentref Llanwnnen gyda phentref glan môr. Cafwyd amser braf yn ymweld â'r cwch achub ac yn bwyta hufen ia, ac roedd y staff a'r plant wedi blino ar ôl diwrnod prysur.

Mae disgyblion blwyddyn 5 a 6 wedi elwa o wersi beicio a diogelwch ar y ffordd. Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion am ennill tystysgrif diogelwch.

Tra bod disgyblion blwyddyn 5 a 6 ym Mhentywyn cafodd blynyddoedd 3 a 4 ddiwrnod hwylus yn Llanwenog yn gweithio mewn timoedd ar sgiliau awyr agored , a chafodd ddosbarth Mrs Llwyd ddiwrnod gwych yng Nghwrtnewydd gyda Sam Tân a Cyw.

Aeth rhieni a phlantos y Cylch Ti a Fi am daith i Aberaeron yn ddiweddar. Mae croeso i unrhyw un sydd am ymuno alw yn yr ysgol am fwy o fanylion, mae'r cylch yn cwrdd bob prynhawn dydd Mercher rhwng 1.15yp-3.00yp.

Cafwyd diwrnod mabolgamau arbennig ar 20fed Mehefin, gyda'r plant i gyd yn mwynhau hufen ia wedi prynhawn llawn hwyl a rhedeg. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi. Diolch i Lynwen Jenkins, aelod o'r Corff Llywodraethol am rodd o fedalau i'r enillwyr eleni eto, ac i gyfaill caredig am gyfrannu'r rhubanau yn ogystal.

Cynhelir Ffair Haf a chystadleuaeth bêl droed 5 bob ochr yn yr ysgol ar 12fed Gorffennaf o 4yp ymlaen. Bydd amryw o stondinau a chylchgrawn yr ysgol, 'Sŵn y Grannell' ar werth. Mae croeso cynnes i bawb, a thynnir y raffl fawr yn ystod y ffair.

Llongyfarchiadau i dîm y bechgyn am gyrraedd y rownd cyn-derfynol ac i'r merched am ennill y gystadleuaeth am y drydedd flwyddyn yn olynol. Da iawn chi ac i bawb a fu yn eich hyfforddi.

Diolch yn fawr i Miss Lora Morris a fydd yn ein gadael fel myfyrwraig ar ddiwedd y tymor. Rydym wedi bod yn ffodus iawn o'i chwmni a dymunwn yn dda iddi yn y dyfodol.

Ffarwel hefyd i Deloni Davies sydd wedi bod yn gwirfoddoli yn gyson yn yr ysgol ers blwyddyn. Pob dymuniad da gyda dy lefel A a diolch am bob cymorth.

Hyfryd oedd gweld tri disgybl o'r ysgol ar S4C yn ddiweddar, sef Carwyn Rosser yn sôn am feiciau modur a Rhys a Nia Williams ar raglen Ffermio o'u cartref yn Nhynllyn.

Diolch yn fawr iawn i Gyngor Cymuned Llanwnnen am rodd o fygiau hardd i bob plentyn gofio jiwbili ddeiamwnt y Frenhines.

Roedd llawer iawn o gyffro yn yr ysgol yn ddiweddar pan ddaeth Lynwen Jenkins â thorch Olympaidd o eiddo ei nith, Carwen Richards i'r ysgol. Cafodd pob plentyn gyfle i weld y dorch a'r dracwisg arbennig. Diolch o galon i Carwen am ganiatau inni weld yr eitemau gwerthfawr hyn, oedd yn gwneud ein gwaith ar y Gemau Olympaidd yn cymaint mwy cyffrous.

Cynhelir gwasanaeth ffarwelio i ddymuno'n dda i flwyddyn 6 ar ddydd Mercher 18fed Gorffennaf am 2.00yp. Bydd y disgyblion hefyd yn gwneud cyflwyniad byr ar eu thema yn ystod y tymor, sef y Gemau Olympaidd. Croeso cynnes i rieni a ffrindiau'r ysgol.

Pob dymuniad da i Gwenllian Jenkins, Heledd Jones, Daniel Jones Cribyn, Daniel Jones Dihewyd, Jamie Lamport, Deiniol Morgan a Catrin Rosser a fydd yn ymuno ag Ysgol Gyfun Llambed ym mis Medi. Cofiwch alw i'n gweld a mwynhewch yn yr ysgol uwchradd.



Aeth 12 o ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 ar gwrs preswyl i Bentywyn. Roedd yn brofiad gwych i abselio, canwio, dringo, syrffio yn y môr a dysgu sgiliau newydd o bob math. Da iawn blant am fod mor dda yn ystod yr ymweliad, roedd hi'n bleser bod yn eich cwmni.


**YSWIRIANT FUW**

**Yswiriant Fferm, Busnesau, Ceir a Thai**

*Arbenigedd lleol*
*Polisïau at bopeth*
*Prisiau cystadleuol*

FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU

Dewch i drafod eich anghenion gyda
**Alan Jacob** 07968 371823 / 01570 481361
neu
**Gwion James** 07980 608337 / 01570 480623
Yn swyddfa **Yswiriant FUW, Sgwar y Mart, Llanybydder**

**Mwnci ffwnci**



Brodweithio a Phrintio Dillad.
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.
**Sioned Green** a **Mared Jones**
Nantgwyn, Heol Llanfair Llambed
**01570 423135**
07811917799 / 07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

**Gwersi Piano**
gan athrawes brofiadol



Cysyllter ag
**Ann Bowen Morgan**
01570 422413

**DAI MECANIC**
Arbenigwr mewn:
• Gwasanaethu a thrwsio beiciau ATV
• Cynnal a chadw cyfarpar pŵer
**DAI JONES**
**07791 840 500**

Cefn Hafod Gorsgoch
Cwrw Da Cwmni Da
01570 434238 07767 676348

**Clwb Cyri**
Bob nos Wener 6.30-8.30yh
£5 am gyri o'ch dewis, reis, sglodion a bara naan
Take Away neu bwyta mewn

**Cwis**
Nos Iau cyntaf bob mis
8 o'r gloch
Bwyd yn rhan o'r noson
Timau:
dim mwy na 6

# Llanllwni

**Ysgol Llanllwni**

Trip i Ganolfan Hamdden Llanbed oedd ein cyfarfod Urdd olaf am eleni. Bu'r plant ieuengaf yn mwynhau ar y castell bownsio a reidio'r beiciau tra bu'r plant hŷn yn sglefrolio. Cafwyd llawer o hwyl. Rhaid oedd cael swper yn siop sglodion 'Lloyds' cyn troi am adref.

Rydym nawr yn cael sesiynau golff ac athletau Campau'r Ddraig. Braf oedd croesawu dynes o India i'r ysgol i siarad â'r plant am ei bywyd a'i gwaith yn India. Roedd yn ymweliad diddorol iawn a diolch i Mr a Mrs Thorne am drefnu hyn.

Daeth Miss Mattie Evans, athrawes Gwyddoniaeth Ysgol Gyfun Llanbed atom i roi gwers wyddonol ymarferol i'r Adran Iau. Cafodd pawb fwynhad mawr.

Bu Ffion Rees atom am wythnos o brofiad gwaith o Ysgol Llanbed. Gobeithio dy fod wedi mwynhau yn ein plith.

Aeth timoedd o'r Adran Iau a'r Babanod i gymeryd rhan yn nhwrnament pêl-droed 5 pob ochr yn Llanfihangel-ar-arth gan fwynhau'n fawr. Da iawn blant.

Cynhaliwyd 'Ddiwrnod Hwyl' llwyddiannus iawn, er gwaethaf y tywydd gaeafol, yn Sied Clunmelyn, ddydd Sadwrn 16eg o Fehefin. Trefnwyd y dydd gan yr Ysgol Feithrin a'r Ysgol. Daeth tyrfa dda i fwynhau amrywiaeth o weithgareddau – chwaraeon, drymio Affricanaidd, peintio wynebau, trampolin, twba lwcus, stondin boteli a chacennau, barbiciw a gweld hen dractorau. Uchafbwynt y dydd oedd ymweliad gan Sali Mali a Sam Tân. Ymunodd plant ac oedolion yn sesiynau canu gan Gwenda Owen gan gael llawer o hwyl. Llywyddion y dydd oedd Mr a Mrs Ken Howells, Gwarallt. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi ac i bawb fu'n helpu.

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol ar gae chwarae y pentref ar ddydd Mercher, 20fed o Fehefin. Cafwyd hwyl wrth gystadlu mewn amrywiaeth o rasys. Tîm Teifi enillodd y darian am y marciau uchaf dan gapteiniaeth Daniel a Sinead.

Enillwyr y tlysau oedd:-

Bachgen â'r marciau mwyaf yn y Babanod: Mathew

Merch â'r marciau mwyaf yn y Babanod: Elan

Bachgen â'r marciau mwyaf yn yr Adran Iau: Steffan

Merch â'r marciau mwyaf yn yr Adran Iau: Chloe

Rhedwr gorau yn y ras hir yn y Babanod: Thomas

Rhedwr gorau yn y ras hir yn yr Adran Iau: Daniel

Enillwyr y medalau i bob blwyddyn oedd: -

Bl.6: Max Bl.5: Steffan Bl.4: Alwyn Bl.3: Chloe Bl.2: Hanna Bl.1/0: Mathew Derbyn: Elan Ysgol Feithrin: Rhys

Diolch i blant blwyddyn 6 am roddi'r tlysau. Diolch hefyd i bawb a ddaeth i gefnogi.

Daeth dau aelod o'r Cyngor Bro i wasanaeth yr ysgol er mwyn cyflwyno mygiau i'r plant i ddathlu Jiwbilî'r Frenhines . Diolch yn fawr.

Erbyn i'r rhifyn yma o Clonc ymddangos fe fydd yr Adran Iau wedi cystadlu mewn gêmau pêl-droed a rownderi Ysgolion Cylch Llanbed. Fe fydd Daniel, Max, Lewis a Steffan wedi treulio tridiau yng ngwersyll yr Urdd yng Nghaerdydd.

Mae gennym nifer o weithgareddau eto cyn diwedd y tymor – Mabolgampau Ysgolion Cylch Pencader; pêl-droed yn Ysgol Llanwnnen, trip ysgol i Barc Gwledig Pembre

Cofiwch bod y lori 'Bag2School' yn dod i'r ysgol am 9 o'r gloch fore Mercher, 11eg o Orffennaf i gasglu'r bagiau. Os dymunwch fagiau yna cysylltwch â'r ysgol.

Ar ddiwedd y tymor byddwn yn ffarwelio â saith o ddisgyblion blwyddyn 6. Fe fydd Sinead, Rebecca, Jerusha, Daniel a Max yn cychwyn yn Ysgol Uwchradd Llanbed ym mis Medi ac fe fydd Siriol a Molly yn dechrau yn Ysgol Dyffryn Teifi, Llandysul. Dymunwn pob hapusrwydd i chi gyd a gobeithio byddwch yn galw nôl i'n gweld gyda'ch hanesion!!

Ar ôl treulio 20 mlynedd fel Cogyddes byddwn yn ffarwelio â Mrs Jane Lloyd ar ddiwedd y tymor. Ymddeoliad hapus i chi a byddwn yn gweld eisiau'r cinio blasus a'ch cwmni.

Dymuna staff a phlant yn Ysgol Llanllwni haf hapus i ddarllenwyr Clonc.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Mehefin:-

£10.00 – 154 – Maud Jones, Fferm Talardd, Maesycrugiau.

£5.00 – 79 – Joyce Williams, Pleasant Hill, Llanwnnen.

£2.50 – 115 – Ffion Rees, Llys Y Wawr, Llanllwni.

£2.50 – 235 – Geraint Rees, Maesycelyn, Llanllwni.

£2.50 – 162- Iestyn ac Erin Evans, Park Lane, Llanllwni.

**Eglwys Sant Luc,Llanllwni**

Bu'r Ŵyl Gorawl eleni yn Eglwys Sant Luc, Llanllwni ar y degfed o Fehefin. Yn y prynhawn tro'r plant oedd cyflwyno eu gwaith, ac roedd ôl paratoi trylwyr ar y dair Ysgol Sul—Gartheli, Llanddewi brefi a Llanllwni. Yn absenoldeb yr arweinydd oherwydd salwch, cymerodd y Parch Susie Bale at awenau'r canu, ac fe wnaeth hynny mewn ffordd ddeheuig a rhwydd. Mwynhawyd te prynhawn yn y Neuadd Gymunedol ar ôl y gwasanaeth.

Am chwech y nos cynhaliwyd yr Hwyrol Weddi gyda'r Parchedig Susie Bale yn arwain y defosiwn. Yn dilyn wythnosau o ymarferion pleserus dan hyfforddiant Mrs Ceinwen Evans, roedd yn chwythig gan bawb ddeall ei bod hi'n sâl, ac yn methu bod yn bresennol. Gobeithio eich bod wedi cael llwyr wellhad, Ceinwen. Buom yn ffodus iawn fod Mrs Elonwy Davies mor barod i gamu i'r adwy, ac arwain y cantorion. Diolch yn fawr iddi. Roedd pawb wedi mwynhau'r Ŵyl, a'n gobaith yw y bydd yn parhau am flynyddoedd i ddod.

Ar Nos Wener Gorffennaf 27ain bydd ein Noson Goffi flynyddol yn cael ei chynnal yn y Neuadd Gymunedol. Croeso cynnes i bawb.

# Pencarreg

**Diflastod heb Fws!**

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd Sant Iago, Cwmann, 8fed o Fehefin am 6.30 yr hwyr. Sharon McNamara o Bencarreg oedd yn gyfrifol am drefnu'r cyfarfod i geisio ailsefydlu'r drefnidiaeth i gysylltu Llambed, Cwmann, Pencarreg a Llanybydder. Daeth tyrfa luosog i gefnogi ac i sôn am y problemau maent yn eu wynebu bellach ar ôl dileu'r drafnidiaeth. Soniodd Sharon am y ddeiseb a gyflwynwyd i'r Senedd yng Nghaerdydd. Da oedd gweld Rhodri Glyn Thomas, A.S Sir Gâr yn bresennol, hefyd Ieuan Wyn Davies, ein cynghorydd lleol. Dywedodd Ieuan Wyn sydd ond newydd ddechrau ar ei dymor newydd fel cynghorwr bod nifer fawr o bobl wedi cysylltu ag ef yn cwyno am y problemau maent yn eu wynebu bellach ac yr oedd yn bendant o'r farn bod rhaid gwneud gymaint â phosib i ddatrys y mater. Cyfeiriodd tuag at y teimlad cryf o aniddigrwydd noson y cyfarfod gan y gynulleidfa tuag at gwmni Arriva yn enwedig gan nad oedd neb o'r cwmni wedi mynd i'r ffwdan i fod yn bresennol. Nhw ddylai fod wedi sefyll o flaen y gynulleidfa i ymddiheurio am droi bywydau pobl wyneb i waered fel hyn. Dywedodd Rhodri Glyn Thomas ei fod wedi cael trafferth mawr wrth geisio cael ymateb gwerth chweil oddi wrth cwmni Arriva ynglŷn â'r mater. Mae wedi trafod y broblem gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth a'r Prif Weinidog o'r Senedd yng Nghaerdydd ac maent hwy wedi ysgrifennu at gwmni Arriva.

Roedd nifer yn y gynulleidfa wedi cwyno eu bod yn amhosib gwneud apwyntiadau gyda'r meddyg a Bwcabws i gydfynd.

Roedd nifer o'r bobl yn teimlo nad oeddent yn gwybod pa ffordd i droi bellach – "Mae'r carped wedi ei dynnu o dan ein traed!"

Dim ond tair wythnos o rybudd cawsom bod y drafnidiaeth yn dod i ben a hynny oherwydd bod y Cambrian News wedi cael cliw am y broblem.

Roedd nifer o bobl bellach wedi eu gorfodi i gerdded hewl gul droellog beryglus heb unrhyw fath o bafin na golau.

Roedd y noson yn llwyddiant yn ei hun gan fod gymaint o bobl wedi ymgasglu i ddatgan eu barn ac i gefnogi ei gilydd. Mae cyfarfod eto yn cael ei drefnu nes ymlaen. Daliwch ati. Mewn undeb mae nerth!



Enillydd y wisg orau yng Ngharnifal Llanybydder oedd Heulwen Tacsis gyda llywyddion y dydd Dai a Lynda Jones a fu'n beirniadu'r cystadlaethau.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Huw a Chloe, Maescanol ar enedigaeth Tom Harri Williams. Brawd bach i Jay. Mae gered ym mhentref Pencarreg, mae llond y lle o blantos yma. Rhywbeth i wneud a'r dŵr wedodd rhywun! Nawr te pawb i gefnogi'r frwydr i ail-sefydlu'r bws X40 neu mi fydd y dyfodol yn ddiflas i'n plant.

# Cwrtnewydd

**Symud Aelwyd**

Dymuniadau gorau i Mair a Carys Rees sydd wedi symud o Seion Cottage i Melrose. Gobeithio y cewch iechyd i fwynhau blynyddoedd lawer yno.

**Llongyfarchiadau**

Daeth llwyddiant i ran Charlotte a Joseph Saunders, Gwel y Cwm yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghlynllifon ar ddechrau'r mis gan ennill y ddeuawd o dan 12 oed. Fe fyddwn siwr o weld y ddau yma yn cael rhagor o wobrau Cenedlaethol yn y dyfodol gan i'r ddau swyno'r Gynulleidfa yno.

Hefyd llongyfarchiadau fil i Ysgol Gynradd Cwrtnewydd ar ennill y gystadleuaeth Gân Actol i ysgolion / adrannau dan 100 o blant. Roedd pawb yn falch iawn o'ch llwyddiant ac yn ymhyfrydu yn y ffaith eich bod wedi dangos bod ysgolion cefn gwlad Ceredigion yn dal i ffynnu a llwyddo.

**Beirniadu yn Llangollen**

Llongyfarchiadau i Salvveig Frykman-Lloyd, Rhydyfelin ar gael yr anrhydedd o feirniadu yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn ystod yr wythnos yma. Gobeithio y bydd yn brofiad bythgofiadwy i chwi.

**Ysgol Cwrtnewydd**

Cafwyd ymweliad gan RNLI lle cafodd y plant drafodaethau a sesiynau ymarferol am beryglon y traeth. Roedd yn fore budduol iawn.

Braf oedd clywed llais Gethin Morgans o flwyddyn chwech yn sgwrsio gyda chyflwynydd Cyw. Bu Gethin yn trin a thrafod cystadleuaeth y Gân Actol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Eryri.

Treuliodd y rhan fwyaf o blant yr ysgol ddechrau'r hanner tymor yn yr Eisteddfod. Ar fore Mawrth, tro Owen Schröder oedd hi i gystadlu ar y cornet. Roedd safon y cystadlu yn uchel iawn a gwnaeth Owen yn arbennig.



Gethin Morgans a Cerys Pollock gyda'r tlws.

Bore Mercher oedd cyfle'r Gân Actol ac Ysgol Gynradd Cwrtnewydd oedd y pedwerydd ar lwyfan y pafiliwn. Perfformiodd y plant yn arbennig iawn a phan gafodd y canlyniadau eu cyhoeddi, braf oedd clywed ein bod wedi ennill y wobr gyntaf.

Yng ngeiriau'r ddau feirniad 'cystadleuaeth uchel tu hwnt oedd hon ond chi wnaeth ein symud ac yn wir, braint oedd cael eich gwylio a'ch clywed'. Daeth pawb yn ôl i Geredigion ar ben eu digon ond wedi blino'n lân.

Bu plant blwyddyn 5 a 6 am wythnos i Bentywyn, lle bu'r plant yn ymarfer sgiliau saethyddiaeth, syrffio, mwynhau ar y cwrs antur ac abseilio. Daeth y plant yn ôl prynhawn Dydd Gwener wedi mwynahu mas draw.

Cafwyd diwrnod Sbort a Sbri yn Ysgol Cwrtnewydd lle bu plant Cyfnod Sylfaen ysgolion Llanwnnen, Llanwenog a Chwrtnewydd yn ymuno mewn diwrnod llawn hwyl. Cafodd y plant gyfle i wneud cebab ffrwythau, a chafwyd ymweldiad gan Cyw a Sam Tân. Yn y prynhawn daeth Rhydian o'r Urdd i wneud gemau potes. Braf oedd gweld yr holl blant yn mwynhau yng nghwmni ei gilydd.

Mae yna dri clwb yn rhedeg yn wythnosol ar hyn o bryd sef y Clwb Drama, Clwb Cadw'n Heini a Chlwb Garddio. Bydd plant y Clwb Drama yn perfformio eu drama ar nos Wener, Gorffennaf 6ed yn Theatr Felinfach.

Aeth plant y Cyfnod Sylfaen a blwyddyn 3 a 4 am drip i Fferm Geffylau Gwedd yn Eglwyswrw. Cafodd y plant gyfle i fynd yn ôl mewn hanes a chael reid mewn cart a cheffyl, profiad nad oedd neb ohonynt wedi cael o'r blaen. Bu'r plant yn gweld y ceffylau mawr gwedd a chafwyd hanes diddorol am y ceffyl gwedd a oedd wedi ei werthu i'r teulu brenhinol.

Cafodd merched yr ysgol gyfle i gael hyfforddiant pêl droed. Braf oedd gweld y merched wedi mwynhau ac yn awyddus iawn i gael rhagor o sesiynau tebyg.

Bu nifer helaeth o blant, rhieni, staff a ffrindiau'r ysgol mewn barbeciw yng Nghefn Hafod, Gorsgoch i ddathlu'r llwyddiant ac i ddiolch i bawb a fu yng nghlwm gyda'r Gân Actol. Cafwyd noson hwylus iawn a phawb wedi mwynhau'r awyrgylch hamddenol. Diolch yn fawr iawn i deulu Cefn Hafod am y croeso cynnes unwaith eto.

Daeth tair athrawes o oedd wedi bod allan yn dysgu yn Lesoto i'r ysgol i rannu eu profiadau gyda phlant ysgolion Llanwnnen, Llanwenog a ni. Cafodd y plant gyfle i weld gwisg draddodiadol y wlad, coginio eu bwyd, siarad yr iaith a dysgu llawer mwy amdanynt.

Mae plant Cyfnod Allweddol Dau wedi bod yn ffodus iawn yn ystod yr hanner tymor diwethaf i gael sesiynau criced yng ngofal Rhydian. Mae'r plant wedi elwa'n fawr iawn o'i arbenigedd.

Aeth holl blant a staff yr ysgol i ymweld â Chapel Seion ym mhentref Cwrtnewydd. Roedd yr ymweliad yn ran o waith Addysg Grefyddol. Daeth Parchedig Jill Tomos i gwrdd â ni i roi hanes y capel ac hefyd sôn am ei gwaith hi fel arweinydd yn y capel. Roedd y plant wedi paratoi holiaduron a diolch yn fawr iddi am ateb nifer helaeth o gwestiynau.

Cynhaliwyd twrnament Pêl-droed a Rownderi Cylch Llambed ar ddydd Iau, Mehefin 28ain. Bu'r plant yn chwarae'n arbennig o dda drwy gydol y dydd a llwyddwyd i ennill y rownderi a'r Pêl-droed i ysgolion bach Cylch Llambed. Da iawn chi blant.

Cynhaliwyd Diwrnod o olchi ceir yn yr Ysgol ar ddydd Gwener, Mehefin 29ain a oedd wedi ei drefnu gan blant y Cyngor Ysgol. Cafwyd diwrnod prysur iawn gyda'r plant a'r staff yn golchi o 8 o'r gloch y bore tan 5.30 yr hwyr, gyda ciw parhaol drwy'r dydd. Codwyd swm o £460 i Ward y Plant yn Ysbyty Glangwili. Hoffai pawb yn yr ysgol ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth unwaith eto. Mae ceir pawb ym mhlwyf Llanwenog yn sgleinio erbyn hyn!

Byddwn yn cynnal ein Mabolgampau ar ddydd Mercher, Gorffennaf 11eg, croeso cynnes i bawb i ymuno â ni.

Bydd mabolgampau pentref Cwrtnewydd yn cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 14eg am 1 o'r gloch ar gaeau'r ysgol.

**Clwb 100**
**Ebrill 2012**

1af – Mary Jenkins, Cathal, Cwrtnewydd; 2il – Luned Jones, Blaenhirbant Uchaf, Cwmsychbant; 3ydd – Mrs Hannah Thomas, Gwylfa, Llanpumsaint; 4ydd – Meinir Davies d/o Tanrhos, Cwrtnewydd.

**Mai 2012**

1af – Lowri Rees, Caeronnen, Penffordd; 2il – Mair Rees, Seion Cottage, Cwrtnewydd; 3ydd – Lloyd Harries, Esgairfryn, Meidrim, Caerfyrddin; 4ydd – Megan Evans, Llwyncian, Pencarreg.

**Mehefin 2012**

1af – Alwyn Ward, Penwac, Llandysul; 2il – Vernon Davies, Waun, Rhydowen; 3ydd – Mrs Helen Jones, Brynhelyg, Pennant. 4ydd – Alun Ward d/o Penwac, Llandysul.


Capel Seion
Cwrtnewydd
Yn eisiau
**DEILIAID i'r Tŷ Capel**
Gwres Canolog Olew
Dim Cŵn
Am fanylion pellach cysylltwch â:
01570 434306


## ADUNIAD YSGOL – BLWYDDYN 1982

A DDECHREUOCH CHI YN YSGOL GYFUN LLANBED YM MIS MEDI 1982, A GORFFEN YN HAF 1987 NEU 1989?

Mae trefniadau bellach ar waith, dan ofal grŵp o gyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Llanbed, i gynnal aduniad. Mae'r grŵp wrthi'n ddiwyd ar hyn o bryd yn ceisio cysylltu â phob disgybl a fu'n aelod o'r dosbarth a gychwynnodd yn yr ysgol uwchradd ym mis Medi 1982. Y dosbarth hwnnw fyddai hefyd wedi ymadael â'r ysgol yn dilyn yr arholiadau Lefel 'O' a 'CSE' ym 1987, neu 1989 os aethpwyd ymlaen i astudio Lefel 'A'.

Os ydych yn adnabod neu'n gwybod am rywun a oedd yn eu blwyddyn gyntaf yn Ysgol Gyfun Llanbed ym Medi 1982, neu a fu'n ddisgybl yn y dosbarth hwnnw rhwng 1982 a 1989—hyd yn oed os am ran o'r cyfnod hwnnw yn unig—gofynnir yn garedig i chi dynnu eu sylw at yr apêl hon.

Mae'r trefnwyr yn awyddus i ledaenu'r gair at bob un o'r 150 o ddisgyblion 'Blwyddyn 1982'.

Cynhelir yr aduniad NOS SADWRN 3 TACHWEDD 2012 ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant, Llanbed. Pris y noson fydd £10 y tocyn, a cheir tocynnau ymlaen llaw, ynghyd â gwybodaeth bellach, drwy law'r trefnwyr.

Am fanylion pellach, neu os oes gennych unrhyw wybodaeth neu fanylion cyswllt i'w rhannu gyda'r trefnwyr, cysyllter ag un o'r canlynol:

Rhian Davies: jeffgelli@hotmail.co.uk

Sioned Davies: sioned@eisteddfod.org.uk

Meinir Howells: meinir.evans@btinternet.com

Sian Jones: siandlloyd@talktalk.net

Helen Lambert: helenoldfield@talktalk.net

Linda Lewis: l.apowell@hotmail.co.uk

Iona Warmington: ionamw@aol.com (029 2056 0771)

I'r rheiny sydd â chyfrif Facebook, gellir cloncan, rhannu lluniau a hel atgofion drwy gyfrwng tudalen a grewyd yn arbennig ar gyfer 'Blwyddyn 1982', sef 'Class 1982 reunion Lampeter Comp/Aduniad Blwyddyn 1982 Ysgol Gyfun Llambed'.


Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC, dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

# C.Ff.I. Ceredigion

Gwelwyd tyrfa dda o aelodau a chefnogwyr brwdfrydig yn Rali Flynyddol C.Ff.I. Ceredigion ar ddydd Sadwrn 2il o Fehefin. Enillwyr llynedd, Llanwenog, oedd yn cynnal y Rali ac yn darparu'r anifeiliaid ar gyfer y cystadlaethau barnu, yr holl stiwardiaid oedd angen, ynghyd â darparu'r gefnogaeth ariannol a noddwyr ar gyfer y diwrnod prysur hwn.

Cynhaliwyd y digwyddiad ar Fferm Llechwedd, Brynteg, Llanybydder drwy garedigrwydd Mr a Mrs Richard Thomas. Mae'r ffederasiwn yn hynod o ddiolchgar iddynt am eu croeso cynnes. Hefyd diolch i Lywydd y Dydd, Mrs Elonwy Davies, Gwendraeth, Llanybydder am ei phresenoldeb, haelioni a'i chymorth i'r Rali. Diolch hefyd i Brif Noddwr y Rali sef Cwmni Dunbia, Llanybydder.

Yn y Rali, a gafodd ei threfnu gan y Swyddog Datblygu, Mared Jones a'r Swyddog Gweinyddol, Anne Jones, gwelwyd aelodau o bob cwr o'r sir yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau, sydd heb os, yn ffenest siop i'r 18 o glybiau a wnaeth gystadlu.

Trwy gydol y dydd, roedd yna gystadlaethau yn dangos nifer helaeth o sgiliau – coginio, crefft, gosod blodau, coedwigaeth, cneifio, dawnsio, Cantorion Priodas, Arddangosfa'r Prif Gylch ayyb, ac wedi denu tua 400 o aelodau'r sir gyda Thalybont yn ennill y Rali. Clwb Pontsian a ddaeth yn 2il, gyda Phenparc â Thregaron yn gydradd 3ydd.

Thema'r Rali eleni oedd 'Priodas Fawr y C.Ff.I.' ac fe fydd yr enillwyr i gyd yn cynrychioli Ceredigion yn y Sioe Frenhinol.

Uchafbwynt y dydd oedd coroni Gwennan Davies, Llanwenog, Brenhines C.Ff.I. Ceredigion am y flwyddyn. Cafodd ei hebrwng i'r llwyfan a oedd wedi ei addurno'n hyfryd, gan ei morwynion, Katie Ann Briddon, Caerwedros, Elin Dafydd, Troedyraur, Cerys Lloyd, Llanwenog a Siwan Haf Jones, Troedyraur. Gyda nhw hefyd oedd Ffarmwr Ifanc y Flwyddyn, Llion Davies, Troedyraur.

Dyma restr o'r enillwyr:

Barnu Gwartheg Godro – Dan 16 – Dafydd James, Bryngwyn; Dan 21 – Ceris Mair James, Bryngwyn; Dan 26 – Rhydian James, Troedyraur; Tîm buddugol – Bryngwyn;

Deunydd Priodas – Talybont; Arddangosfa Ffederasiwn – Penparc; Crefft – Gareth Jenkins, Talybont; Coginio – Delyth Evans a Gethin Morgan, Bro'r Dderi; Gosod Blodau – Gwennan Davies, Mydroilyn; Cystadleuaeth yr Aelodau – Talybont; Gwisgo'r Briodferch – Delyth a Rhiannon, Lledrod; Sialens y Briodferch – Llanddeiniol; Coedwigaeth – Emyr a Dilwyn Harries, Llanddeiniol; Dawnsio – Pontsian; Barnu Defaid Texel – Dan 16 – Gareth Jones, Tregaron; Dan 21 – Dyfrig Williams, Llangwyryfon; Dan 26 – Aled Davies, Caerwedros; Unigolyn Uchaf – Dyfrig Williams, Llangwyryfon; Tîm Buddugol – Talybont; Canllaw Bras I… - Felinfach; Priodas Ffug – Llanddewi Brefi; Cantorion Priodas – Troedyraur; Cneifio defaid – Dan 21 – Rhys Lewis, Trisant; Dan 26 – Ceredig Lewis, Llangwyryfon; Tîm Buddugol – Trisant; Barnu Moch – Unigolyn Uchaf – Sioned Evans, Llanddewi Brefi; Tîm Buddugol – Llanddeiniol;



Rhanwyd y wobr am Aelod Mwyaf Gweithgar y flwyddyn rhwng Elgan Evans, Talybont ac Enfys Hatcher, Llanwenog ac fe gyflwynwyd y tlysau iddynt gan Lywydd y Sir, Eifion Morgans.

Gweddnewid Priodasol – Bro'r Dderi; Arddangosfa'r Prif Gylch – Pontsian; Tablo – Talybont; Gwneud Arwydd – Mydroilyn; Barnu Stoc – Unigolyn Uchaf dan 16 – Dafydd James, Bryngwyn; Unigolyn Uchaf dan 21 – Dyfrig Williams, Llangwyryfon; Unigolyn Uchaf dan 26 – Rhydian James, Troedyraur; Unigolyn Uchaf yn y Barnu Gwartheg – Rhydian James, Troedyraur; Unigolyn Gorau am y rhesymau yng Nghymraeg – Dyfrig Williams, Llangwyryfon; Clwb Gorau yn y Barnu Stoc – Talybont; Ffermwyr Gorau'r Flwyddyn – Gwennan Davies, Llanwenog a Llion Davies, Troedyraur; Anrheg Goffa W.G.Hughes & W.D. Lewis – Lowri Jones, Caerwedros a Llŷr Jones, Pontsian; Ysgrifennydd Clwb Gorau – Elin Jenkins, Llanddewi Brefi; Aelod a dreuliodd yr amser hiraf ar daith ryngwladol – Gwennan Davies, Llanwenog; Aelod mwyaf gweithgar y flwyddyn – Elgan Evans, Talybont ac Enfys Hatcher, Llanwenog;

Clwb gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2011/12 – Buddugwyr – Llanwenog; ail fuddugol – Pontsian;

Y clwb "bychan" gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2011/12 – Llanddewi Brefi;

Canlyniadau Terfynol y Rali:

1. Talybont; 2. Pontsian; cydradd 3. Penparc a Tregaron; 5. Llangwyryfon; 6. Llanddewi Brefi; 7. Caerwedros; 8. Troedyraur; 9. Bryngwyn; cydradd 10. Mydroilyn a Trisant.

Cafodd y penwythnos prysur yma ei gloi gyda Chymanfa Ganu lwyddiannus yn Eglwys Llanwenog ar nos Sul, gydag Enfys Hatcher, cadeirydd y Rali yn arwain ac yn ei chynorthwyo oedd Gwawr Jones (piano) a Carys Evans (organ). Llywydd y noson oedd Mrs Megan Jones, Rhandir a'r artistiaid oedd aelodau Clwb Llanwenog.

Enillwyr y clwb 200 y mis yma oedd 1.Marc a Wendy Jenkins, Ysgubor Wen, Mydroilyn, Llambed 2.Rhian Evans, Glanyrafon, Talybont 3.Helen Hopkins, Brynwichell, Blaenpennal.

# Sarn Helen

Cystadlodd Sarn Helen yn ras gyfnewid cestyll Cymru. Mae'r ras yn dechrau am 10-30 yb ger castell Caernarfon, gyda noson o gwsg yn Drenewydd, ac yn ail ddechrau bore Sul am 7 o'r goch ac yn cyrraedd yn y prynhawn yng nghastell Caerdydd. Mae yn 210 o filltiroedd dros 20 o gymalau a phump deg a naw o glybiau yn cystadlu. Ar ddiwedd y daith gorffennodd Sarn Helen y ras mewn 23 awr 30 munud a 08 eiliadau, ac yn 15ed safle. Canlyniadau ardderchog i'r clwb.

Gareth Jones yn dechrau allan o Gaernarfon i Penygores mewn awr 12 munud a 9 eiliad, i gastell Cricieth Teifion Davies awr 08 munud 53 eiliad, i Maentwrog Mark Dunscombe awr 24 munud 01 eiliad, Maentwrog,i gastell Harlech Eric Rees awr 05 munud 38 eiliad, Barmouth Dawn Kenwright awr 11 munud 57 eiliad, Dolgellau Dylan Davies awr 11 munud 57 eiliad, Dinas Mawddwy Dylan Lewis awr 02 munud 37 eiliad, Foel Andrew Abbott awr 05 munud 20 eiliad, Llanfair Caereinion Steffan Jones awr 02 munud 49 eiliad, a hanner marathon diwethaf y dydd i'r Drenewydd oedd Steven Holmes mewn awr 27 munud 47 eiliad.

Dre Newydd i Lanbadarn Fynydd yw'r cymal cyntaf fore Sul, a thaith o hanner farathon a Glyn Price yn gorffen mewn awr 13 munud 58 eiliad, i Grossgates Simon Hall awr 12 munud 44 eiliad, Llanfair Ym Muallt Llewelyn Lloyd awr 06 munud 47 eiliad, Drovers Arms (copa Epynt) Daniel Hooper awr 12 munud 33 eiliad, Aberhoddu Michael Davies 1 awr 49 munud 28 eiliad, Storey Arms Kevin Hughes awr 17 munud 03 eiliad, Merthyr Tydfil Tony Halll 59 munud 48 eiliad , Abercynon Sian Roberts-Jones awr 08 munud 01 eiliad, gastell Caerffilli Geithin Jones awr 12 munud 47 eiliad, a'r cymal ddiwethaf i gastell Caerdydd oedd Richard Marks ac yn gorffen mewn awr 06 munud a 40 eiliad.

Dyma'r tro cyntaf i'r trail hanner a mararthon Cymru i gael ei chynnal yng nghoedwig Coed Y Brenin ger Dolgellau, canlyniadau'r hanner marathon 48 a 6ed d50 Tony Hall 2awr 01 munud 37 eiliad, 73 a 4ydd menywod agored Caryl Davies 2awr 07 munud 25 eiliad, 84 a 6ed menywod agored Dee Jolly 2 awr 11 munud 13 eiliad, 96 a chyntaf menywod 50 Dawn Kenwright 2 awr 14 munud 08 eiliad, 151 Terry Jones 2 awr 26 eiliad 35 eiliad, a Gudrun Jones 3 awr 06 munud 07 eiliad. Steven Holmes yn gorffend y farathon mewn 3 awr 50 munud 53 eiliad, Aneurin James 5 awr 03 munud 06 eiliad, a Jane Holmes 5 awr 11 munud.



Llun o Caryl Davies a Dawn Kenwright yn dangos ei Ffagal Olympaidd Llundain 2012 i blant y clwb.

Ras Hafod 2il Chris Schroder 45 munud 11 eiliad, 6ed Simon Hall 48 munud 15 eiliad, 10fed Hydan Lloyd 51 munud 15 eiliad, 11fed Sian Roberts-Jones 52 munud 02, 13eg Gareth Jones 53 munud 10 eiliad.

Cystadlodd Cailtlin Page a Ffion Quan ar drac dros ŵyl banc y Jiwbili yng Nghaerdydd, Ffion yn gorffen y ras 800 medr mewn 2 munud 32 eiliad 7fed , a Caitlin yn ras 1500 medr, 5 munud 12 eiliad 6ed.

# Cornel y Plant

I blant dan 8 oed



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel shwmae? Wel dwi wedi cael llond bola ar y glaw yma bob dydd, gobeithio y cawn ni bach o haul cyn bo hir. Efallai wedyn y cawn ni gyfle i fynd i'r traeth i adeiladu cestyll tywod a nofio yn y môr. Ond cofiwch blant pan fyddwch chi'n mynd am dro i'r traeth, mae'n rhaid bod yn ofalus iawn a gwrando ar oedolyn.

Wel cefais lond cae o dractorau o bob math dros yr wythnosau olaf yma, New Holland, Massey Ferguson, John Deer, Deutz a Case wrth gwrs. Roeddwn yn hoffi tractorau coch Cara Elli Jones o Gwmann a Gwen James o Gnwc y Dintir, rhai glas Tomos Davies, Llanybydder a Joshua Peyto o Gaint. Roedd tractor oren Lili Peyto o Gaint yn hyfryd ac un Jamie Jones o Bencarreg hefyd ond y tractor mwyaf taclus oedd tractor goch Gwenllian Llwyd, Croesoer, Cwmann. Da iawn bawb a llongyfarchiadau i ti Gwenllian!

Mae gen i ymbarel a thywel yn barod ar gyfer y traeth, ond maen nhw'n edrych yn ddiflas iawn yn ddu a gwyn. Beth am liwio nhw'n lliwgar i mi'r mis hwn?

Ta ta tan toc.




Enillydd y mis!


Gwenllian Llwyd



**Enw:** **Oed:**

**Cyfeiriad:**

# Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne




**Rhai enwau lleoedd ym Mro Morgannwg**

**Llandŵ**

Cynhelir y Brifwyl eleni ar safle gerllaw pentref bychan Llandŵ (Llandow), ryw 15 milltir i'r de-ddwyrain o Gaerdydd. Ystyr Llandŵ yw 'eglwys a gysegrwyd i Dduw'; ceir eglwys fechan ganoloesol yn y pentref ac mae rhan ohoni'n perthyn i'r 11 ganrif. Ffurf ar Dwy(w) sef Duw, yw'r ail elfen yn yr enw.

Mae'r eglwys erbyn hyn wedi'i chysegru i'r Drindod Sanctaidd; ceir enghreifftiau tebyg o newid cysegraid i'r Drindod Sanctaidd yn Llanddew yn Sir Frycheiniog ac yn Llanddwy yng Ngheredigion.

**Llan-gan**

Mae pentref bychan Llan-gan ryw bedair milltir o'r Bont-faen. Mae cysylltiad rhwng yr eglwys yn Llan-gan â phentref Llanllwni. Yn Aberceiliog, Llanllwni, y ganed David Jones (1736-1810). Gwasanaethodd David Jones yn Llan-gan ac ym mhlwyf cyfagos Eglwys Fair y Mynydd am gyfnod o 43 o flynyddoedd. Er mai rhyw 500 oedd poblogaeth y ddau blwyf yn y cyfnod hwnnw, tyrrai miloedd i'r cymun misol yn Llan-gan i wrando arno'n pregethu ac i dderbyn cymun ganddo. Cyfeiriwyd ato'n aml fel 'angel Llan-gan'. Mae arddangosfa barhaol yn yr eglwys yn Llan-gan i goffáu David Jones.

Ystyr Llan-gan yw Eglwys Canna. Yn ôl traddodiad roedd Canna yn wraig i Sadwrn ac yn fam i Crallo. Coffeir Sadwrn yn Llansadwrn (yn Sir Gaerfyrddin ac yn Sir Fôn); fe'i gelwir weithiau yn Sadwrn Farchog. Mae'r enw'n tarddu o'r enw personol Lladin Saturnus. Ychydig a wyddys am Crallo ond mae'n cael ei goffáu yn Llangrallo (Coychurch, Sir Forgannwg) ac mae ffynnon, Ffynnon Grallo, wedi ei chysegru iddo.

Mae'n bosibl fod Canna yn cael ei choffáu yn enwau dwy ardal yng Nghaerdydd sef Canton a Phontcanna. Ceir Fynnon Canna yn Henllanfallteg (Sir Benfro).

**Llangrallo, Coety**

Cadarnheir bod Llangarallo yn safle eglwysig cynnar gan olion dwy groes o'r 10fed ganrif a ddarganfuwyd ym mynwent eglwys y plwyf. Cafwyd hyd, yn ogystal, i groes sydd ryw ganrif yn ddiweddarach ym mhlwyf cyfagos Coety. Mae Coety yn cynnwys yr elfennau 'coed' a 'du'; perthyn i ddosbarth o enwau yn y Fro sy'n adlewyrchu olion hen goedwigoedd o'r oes o'r blaen. Olion prin o'r coedwigoedd hyn a welir yn yr ardal erbyn hyn, ond mae tystiolaeth enwau lleoedd yn tystio i'r coedwigoedd a fu. Rhoddwyd yr enw Coychurch ar blwyf Llangrallo yn y 13 ganrif ac mae hwnnw'n cynnwys yr elfen 'coed' ynghyd â'r enw Saesneg 'church'.

Enwau eraill sy'n gysylltiedig â 'coed' yn yr ardal yw Pen-coed, Tor-coed, Coed-y-gaer, Coedypebyll, Prysg. Ond efallai mai'r enw mwyaf diddorol o ddigon yn y dosbarth hwn yw Coedymwstwr: 'mwstwr' yw'r elfen fwyaf arwyddocaol yn y cyfuniad. Mae'r elfen yn cynrychioli 'mystwyr'. Mae'n enw sydd wedi hen golli erbyn hyn ond yn tarddu yn y pendraw o'r Lladin 'monasterium' sef mynachlog ac yn awgrymu bodolaeth cell Gristnogol gynnar. Ystyr Coedymwstwr, felly, yw 'coed y fynachlog'. Ceir yr un ffurf Mystwyr (1222) > Mwstwr ym mhlwyf Corwen yn Sir Feirionnydd, enw ar hen drefgordd a fu'n eiddo ar un adeg i Abaty Glyn-y-Groes.

Ysgolhaig sydd wedi datgloi cyfrinachau enwau lleoedd Sir Forgannwg yw'r Athro Gwynedd Pierce. Bydd yn cael ei anrhydeddu ar 6 Hydref eleni yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Cynhelir y gynhadledd yn adeilad newydd Archifau Morgannwg yn Lecwydd, Caerdydd. Bydd yno groeso cynnes i bawb.

Mae Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn cyhoeddi cylchlythyr ddwywaith y flwyddyn a allai fod at ddant darllenwyr y golofn hon. Cewch fanylion ymaelodi a fydd yn sicrhau copi i chi ar wefan y Gymdeithas: www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org

# Llwyddiant ym myd Chwaraeon



Cynhaliodd Sefydliad y Merched Ceredigion ei Twrnament Pêl-droed blynyddol yn ddiweddar yn Nhregaron. Yr enillwyr yn Adran y Merched oedd Ysgol Gynradd Llanwnnen.



Tîm pêl-droed bechgyn Ysgol Ffynnonbedr yn dod yn ail allan o un deg pedwar o dimau yn nhwrnament Sefydliad y Merched Tregaron.



C.Ff.I. Bro'r Dderi yn ennill cystadleuaeth Pêl-osgoi C.Ff.I. Cymru ac enillwyd y gystadleuaeth mewn rownd derfynol gyffrous iawn. Y tîm oedd Rhys Douglas, Steffan Roberts, Elin Gwyther, Nia Gwyther, Tomos Williams, Dewi Uridge, Sioned Douglas ac Aron Dafydd.



Ar nos Wener 22ain o Fehefin fe gynhaliwyd cinio blynyddol Clwb Hoci Llanybydder yn Nhafarn Ffostrasol. Cafwyd noson hwylus iawn gyda'r tlysau canlynol yn cael eu cyflwyno gan y capten Beca Russell; sgorwraig uchaf y flwyddyn oedd Laura Jones, chwaraewraig mwyaf addawol y flwyddyn oedd Elen Powell a chwaraewraig y flwyddyn oedd Gemma Hope. Capten newydd y clwb am y tymor nesaf fydd Gemma Hope gyda Claire Richards yn is-gapten. Ar ddiwedd y tymor fe orffenodd y clwb yn 5ed yng Ngynghrair Gorllewin De Cymru. Mi fydd y sesiynau hyfforddi yn ail dechrau ar nos Fercher yr 8fed o Awst ar gaeau Clwb Rygbi Llambed yng Nghwmann i ddechrau am 6.30. Croeso cynnes i bawb.



Beca Mai Roberts, disgybl yn Ysgol Carreg Hirfaen Cwmann a enillodd y fedal arian yn y ras i ferched Blwyddyn 4 yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Cenedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn ddiweddar



Tomos Jones, Glennydd, Stryd Newydd, Llambed, a enillodd ei gap cyntaf dros dîm Criced dan 11oed Cymru yn ddiweddar. Cymerodd ran flaenllaw ym muddugoliaeth Cymru o 6 rhediad dros Swydd Gaerloyw yn Frocester ger Stroud.

Cafodd ei ddewis hefyd i gynrychioli ei wlad yn erbyn swyddi Caerhirfryn, Efrog a Chaer dros benwythnos 23-25 Mehefin yng Ngogledd Cymru, ond yn anffodus rhaid oedd gohirio'r gêmau yma oherwydd y tywydd gwlyb!

Mae Tomos yn chwarae i Glwb Criced Bronwydd ers pan oedd yn 5 oed ac wedi cynrychioli Sir Gaerfyrddin ers 3 mlynedd. Ef oedd capten y tîm dan 10 oed llynedd, a Tomos yw capten presennol tîm dan 11oed Sir Gaerfyrddin.

Da iawn ti Tomos a phob lwc i'r dyfodol.


CYFRi

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn ailfeddiannu am eich cartref.

# Rali C.Ff.I. Ceredigion



C.Ff.I. Llanwenog yn ennill Cwpan Gwynne Davies am y Clwb gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2011/12.



Rali CFfI Ceredigion a gynhaliwyd Dydd Sadwrn Mehefin 2ail yn Llanwenog, Brenhines Cffi Ceredigion am 2012-13 yw Gwennan Davies, Llanwenog a'i morwynion yw (o'r chwith) Cerys Lloyd, Llanwenog; Siwan Haf Jones, Troedyraur; Elin Dafydd, Troedyraur a Katie-Ann Briddon, Caerwedros. Ffermwr Ifanc y Flwyddyn yw Llion Davies, Troedyraur.



Gethin Morgan a Delyth Evans, C.Ff.I. Bro'r Dderi oedd yr enillwyr yng nghystadleuaeth coginio.

Cipwyd y wobr gyntaf am weddnewydd priodasol gan Dewi Uridge a Alis Gwyther, C.Ff.I. Bro'r Dderi.

